

## Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 28 Mawrth 2019 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 22 Mawrth 2019.

Yn

bresennol: Y Cynghorydd Sir Dianne Rees (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Bale, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

## 140 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Congreve, Davies, Goddard, Gavin a Philippa Hill-John a Morgan.

## 141 : CROESO

Croesawodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Jennifer Burke-Davies yn ôl ar ôl dychwelyd o'i habsenoldeb mamolaeth.

Croesawodd yr Arglwydd Faer Christopher Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 a oedd yn bresennol yn ei gyfarfod cyntaf o'r Cyngor ers iddo ddechrau yn ei swydd yn gynharach ym mis Mawrth.

Estynnwyd croeso cynnes hefyd i ddisgyblion o Gyngor Ysgol o Ysgol Gynradd Coed Glas a oedd ar ymweliad addysgiadol wedi'i drefnu gan y Cynghorydd Bale.

## 142 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau :

Cynghorydd	Eitem	Buddiant
Y Cynghorydd Bernie Bowen-Thomson	Eitem 9: Datganiad Polisi Cyflog 2019-2020	Buddiant personol a rhagfarnol gan fod ei phartner yn un o gyflogeion y Cyngor.
Y Cynghorydd Carter	Eitem 15: Cynnig 2	Buddiant personol oherwydd ei fod yn gyflogai i Elusen sy'n ymgyrchu ar Lygredd Awyr.

Y Cyngorydd McGarry	Eitem 21: Penderfyniadau Brys - Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr	Buddiant personol fel Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr.
Y Cyngorydd Taylor	Eitem 15: Cynnig 2	Buddiant personol - yn gyflogai i Elusen sy'n ymgyrchu ar Lygredd Awyr.
Y Cyngorydd Williams	Eitem 9: Datganiad Polisi Cyflog 2019-2020	Buddiant personol gan fod rhiant yn cael ei gyflogi gan yr Awdurdod Lleol.

Mae gan Uwch Swyddogion, yr effeithir arnynt gan eitem 9 - y Datganiad Polisi Cyflog 2019-2020, fuddiant ariannol a byddant yn gadael y cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem hon.

#### 143 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Croesawodd yr Arglwydd Faer y ddau Gwestiynydd Cyhoeddus i'r cyfarfod Cyngor.

##### Cwestiwn Cyhoeddus 1 – *Ms Bronwen Davies*

Mae Lleisiau Merched Cymru / Women's Voices Wales yn pryderu bod merched yn osgoi defnyddio toiledau rhyw cymysg, sy'n anfantais i'w hiechyd, eu lles a'u haddysg.

A yw Cyngor Caerdydd yn gwybod faint o ysgolion yng Nghaerdydd sydd ddim yn bodloni'r gofyniad statudol am doiledau gwrywaidd a benywaidd ar wahân?

##### Ateb - y *Cyngorydd Merry*

Nid oes toiledau rhyw cymysg yn ysgolion Caerdydd ac eithrio rhai toiledau hygyrch mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar - dosbarthiadau meithrin a derbyn - lle caiff plant eu cynorthwyo i ddatblygu mynd i'r toiled yn annibynnol.

Mae ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu gydag ardaloedd coridor golchi dwylo, yn unol â'r diwydiant cyfredol a chanllawiau arfer gorau. Mae'r ardaloedd cynllun agored hyn wedi'u rhannu'n ardaloedd gwrywaidd a benywaidd diffiniedig gydag arwyddion fel sy'n briodol. Mae'r ardaloedd gwryw a benyw wedi'u gwahanu'n glir gan yr unedau basn golchi dwylo penrhyn. Darperir biniau iechydol ar gyfer toiledau i fenywod yn unol â'r cynllun a bennwyd fel y disgrifiwyd. Bwriedir i un disgybl ddefnyddio pob ciwbicl toiled, a hynny o'r tu mewn, ynghyd ag ochrau a drysau llawn o'r llawr i'r nenfwd.

##### Cwestiwn atodol – *Bronwen Davies*

Credaf y gallai fod gennym rywfaint o wahaniaeth barn o ran beth mae toiledau cymysg yn golygu oherwydd y sefyllfa a ddisgrifiwyd.

Mae'n dda clywed nad oes toiledau cymysg mewn ysgolion hŷn ar hyn o bryd, ond os yw ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu gydag ardaloedd golchi dwylo wedi'u hagor ar ffurf coridor, credaf ei bod yn gywir dweud nad yw'r rheini'n bodloni'r gofynion statudol.

Yn yr achos hwnnw, hoffwn wybod a fu unrhyw werthusiad yn ysgolion Caerdydd, yn enwedig yr ysgolion newydd sydd â'r trefniadau toiledau hyn, i effaith y newid hwnnw ar y merched yn yr ysgol, sut y mae hynny wedi effeithio ar ddisgyblion benywaidd?

*Ateb - y Cyngorydd Merry*

Rydym bob amser yn awyddus i ymgysylltu â disgyblion a chael eu barn am y cyfleusterau a ddarparwn a'r hyn y byddwn yn ei ddweud o ran y cyfleusterau toiled yw, fel y dywedais, canllawiau arfer gorau yw'r rhain, ond nid yw hynny'n golygu ein bod yn stopio yn y fan honno o ran ymgynghori.

Gwnaethom arolwg yn ddiweddar fel rhan o'n gwaith *Urddas Mislif*, a'r broblem fwyaf a gododd merched oedd problemau ynghylch preifatrwydd o fewn y toiledau ac o amgylch cleon ar giwbiclau y gellid eu hagor o'r tu allan, neu giwbiclau nad oeddent wedi'u hamgáu o'r brig i'r gwaelod, oherwydd bu problemau lle mae hyd yn oed mewn un rhyw ciwbicl toiled yn amlwg mae lle o hyd i fwlio neu erledigaeth, a dyna fu'r ysgogiad y tu ôl i'r cyfleusterau agored

Yr wyf yn hapus i gwrdd â Llesiau Merched Cymru i wrando ar eu pryderon, ond mae unrhyw newidiadau a wnawn i gyfleusterau toiledau bob amser yn mynd i fod yn fater o ymgysylltu â disgyblion i gael eu barn ynglŷn â sut y teimlant am y cyfleusterau.

*Cwestiwn cyhoeddus 2 – Lyndsey Halliday*

A fydd Cyngor Caerdydd yn sicrhau bod yr holl benderfyniadau, cyllidebau a dulliau strategol yn arwain at leihad allyriadau carbon i sero net erbyn 2030 a lleihau lefelau defnydd?

*Ateb – y Cyngorydd Michael*

Mae'r Cyngor wedi bod yn cymryd camau ers peth amser i reoli a lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon cysylltiedig o'n hystâd. Dangosodd yr adenillion diweddaraf o'r ymrwymiad i leihau carbon fod allyriadau ar gyfer 2017-2018 yn 30,900 tonnall fetrig o CO<sub>2</sub>, gostyngiad sylweddol o'i gymharu â 51,000 tonnall fetrig yn 2013-14.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar gyfres o brojectau i gynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy lleol ac ar hyn o bryd mae gennym bron i 2 megawatt o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi'i osod ar ffurf paneli solar ar y to a chynllun trydan dŵr Cored Radur.

Mae cynlluniau ar y gweill i godi fferm ynni haul yn Ffordd Lamby a bydd yn ychwanegu 8.5 megawatt arall at gapasiti cynhyrchu'r cyfanswm hwn.

Mae strategaeth tanwydd allyriadau isel hefyd wedi'i chymeradwyo gan y Cabinet a bydd yn dechrau mynd i'r afael â'r allyriadau carbon a llygredd arall sy'n deillio o'n gweithgarwch fflyd dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

Mae'n debyg y byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynllun cyflawni carbon isel yn ddiweddar sy'n cynnwys uchelgais i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor yn bwriadu dechrau paratoi ar gyfer Strategaeth Garbon Niwtral yn y flwyddyn ariannol i ddod. Bydd hyn yn cynnwys archwiliad manwl o'n sefyllfa garbon cyffredinol presennol, gan fesur y bwlch rhwng hyn a safbwynt carbon niwtral. Bydd y Cabinet wedyn yn ystyried amrywiaeth o opsiynau strategol ar gyfer cyflawni hyn.

#### Cwestiwn atodol – *Lyndsey Halliday*

Yn gyntaf, hoffwn ddweud pa mor gyffrous yw clywed bod y Blaid Lafur Genedlaethol wedi datgan ei chefnogaeth i ddatganiad Argyfwng Hinsawdd Cenedlaethol.

Pa bwysau y bydd Cyngor Caerdydd yn ei roi ar Gynulliad Cymru a Senedd y DU i ddatgan argyfwng hinsawdd er mwyn cefnogi Caerdydd a dinasoedd eraill i ddatgarboneiddio'n gyflym?

#### Ateb – y Cynghorydd Michael

Nid wyf yn siŵr pa fath o bwysau y gallwn ei roi arnynt i ddatgan argyfwng. Mater iddynt hwy yw hyn. Fodd bynnag, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru yn sgil datblygiadau yn lansiad y Strategaeth Garbon Isel ddydd Iau diwethaf sy'n dod â llawer o'r polisïau at ei gilydd gyda'r nod o wneud rhywbeth am hyn ac rydym wedi ymrwmo'n llwyr i weithio gyda hwy ar hynny.

144 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol:

<b>Cynghorydd</b>	<b>Nifer y llofnodion</b>	<b>Cais</b>
Y Cynghorydd Patel	247	Cyflwyno deiseb i'r Cyngor i adolygu a lleihau graddau'r llinellau melyn dwbl mewn strydoedd ochr yn Nhreganna a osodwyd yn ddiweddar.
Y Cynghorydd Stubbs	88	Cyflwyno deiseb i'r Cyngor i wella'n frys yr amodau yn Uned Blynnyddoedd Cynnar Ysgol Gynradd Moorland.
Y Cynghorydd Molik	90	Galw ar y Cyngor a Bws Caerdydd i sicrhau bod y gwasanaeth bws yn Lake Road West a Celyn Avenue yn cael ei gynnal.
Y Cynghorydd	30	Codi pryderon am rota a chysondeb

Simmons		rota'r Wardeniaid o fewn y Llety Gwarchod yn safle Sandown Court.
Y Cynghorydd Ford	419	Galw ar y Cyngor a Bws Caerdydd i gadw rhyw lefel o wasanaeth yn y Tyllgoed ar lwybrau 64, 65 a 66
Y Cynghorydd Driscoll	135	Galw ar y Cyngor i ddatrys y mater o'r hawl dramwy gaeedig rhwng Ystâd Insole a phentref Llandaf drwy ddarparu mynediad addas arall i breswylwyr rhwng y ddwy ardal.

Y ddeiseb a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Wood o 75 llofnod, yn gofyn i'r Cyngor gyflwyno parthau gwrth-segura y tu allan i ysgolion. Er mwyn symud ymlaen â'r ddeiseb hon, mae Gwasanaethau Democrataidd yn aros i dderbyn y ddeiseb yn y fformat cywir.

#### 145 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Mae manylion [Dyletswyddau a Digwyddiadau'r Arglwydd Faer](#) wedi'u cyhoeddi.

Roedd yr Arglwydd Faer yn falch iawn o groesawu ei Uchelder Brenhinol y Tywysog William, Dug Caergrawnt i Gaerdydd ar gyfer gêm olaf y chwe gwlad - Cymru yn erbyn Iwerddon. Roedd yn ddiwrnod bendigedig ac yn llwyddiant gwych i'r tîm a enillodd bedwaredd Gamp Lawn. Mae'r Cyngor yn llongyfarch Warren Gatland a Thîm Rygbi Cymru ar eu llwyddiant ysgubol.

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod elusen yr Arglwydd Faer, Tiny Lives, Apêl Arch Noa wedi codi arian bron i £114,000 hyd yn hyn. Tynnodd yr Arglwydd Faer sylw'r Aelodau at ddigwyddiadau elusennol i ddod. Diweddglo'r cyfnod codi arian bydd cinio gala nos Wener 17 Mai 2019 yn Neuadd y Ddinas a'r gwestai anrhydeddus oedd Noddwr Elusen Arch Noa, y Fonesig Shirley Bassey

Roedd yr Arglwydd Faer wrth ei fodd yn cyhoeddi y byddai Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor yn cael ei gynnal ar ddydd Gwener 17 Mai i roi Rhyddfrait y Ddinas i'r Fonesig Shirley Bassey fel y cytunwyd gan y Cyngor yn ôl yn Chwefror 2012.

#### 146 : Y DDARPAR ARGLWYDD FAER A DIRPRWY ARGLWYDD FAER 2019-2020

Derbyniodd ac ystyriodd y Cyngor enwebiadau ar gyfer swyddi'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2019 - 2020.

Cynigiodd y Cynghorydd Huw Thomas enwebiad y Cynghorydd Daniel De'ath fel y darpar Arglwydd Faer. Eiliodd y Cynghorydd Joe Boyle y cynnig.

Cynigiodd y Cynghorydd Robson enwebu'r Cynghorydd Jacqueline Parry fel y darpar Dirprwy Arglwydd Faer. Eiliodd y Cynghorydd Keith Parry y cynnig.

Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill.

PENDERFYNWYD - Dylid cymeradwyo'r

1. Cynghorydd Daniel De'ath fel darpar Arglwydd Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2019-2020 a'r Cynghorydd Jacqueline Parry fel darpar Dirprwy Arglwydd Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2019-2020.

#### 147 : STRATEGAETH ECONOMAIDD DDRAFFT

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu, y Cynghorydd Goodway y Strategaeth Economaidd Ddrafft a oedd wedi'i datblygu yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd. Roedd y Strategaeth yn cael ei chyflwyno'n fwriadol i'r Cyngor ar ei ffurf ddrafft, er mwyn galluogi pob Aelod Etholedig i gael mewnbwn cyn i'r strategaeth gael ei hystyried gan y Pwyllgor Craffu Economi a Diwylliant a chyn i'r Cabinet gymeradwyo'r ddogfen derfynol.

Wrth gyflwyno'r Strategaeth ddrafft, dywedodd yr Aelod Cabinet fod y cynigion yn cynrychioli uchelgeisiau'r gweinyddiaeth ar gyfer dyfodol Caerdydd a sut y byddent yn cael eu cyflawni. Roedd gan y Cyngor gyfrifoldeb i ddarparu arweiniad a chyfeiriad; ymgysylltu â phartneriaid a gweithio gyda hwy, gan gynnwys rhanddeiliaid, Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ar draws Ranbarth y Prifddinas a'r sector busnes preifat i gyflawni'r canlyniadau; ac i ymgysylltu â chymunedau.

Fel prifddinas, Caerdydd yw'r deinamo economaidd sydd ei hangen er mwyn cadw twf a chyflogaeth ar fynd er budd y rhai sy'n byw yn y ddinas a'i rhanbarth. Mae cynhyrchiant yng Nghaerdydd ar ei hôl hi o gymharu â chyfartaledd y DU ac mae gan Gaerdydd fwy o bobl yn byw mewn amddifadedd economaidd nag unrhyw ddinas awdurdod lleol arall yng Nghymru, ond hi yw'r ddinas fwyaf.

Nod y strategaeth economaidd yw mynd i'r afael â'r holl egwyddorion hyn a chysylltu â strategaethau eraill fel y strategaeth ofodol; y strategaeth ddiwydiannol; a'n strategaeth i annog a meithrin buddsoddwyr.

Mae'r strategaeth yn nodi cyfleoedd allweddol mewn ardaloedd o'r ddinas, gan gynnwys Canol y Ddinas a'r Bae ar gyfer diwydiannau swyddfa masnachol; dosbarthu a thechnolegau gwyrdd i'r dwyrain o'r ddinas; datblygu sefydliadau addysg; diwydiannau creadigol a digidol a gwyddorau bywyd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'r sylwadau a wnaed yn ystod y ddadl yn cael eu casglu a'u hystyried i sicrhau bod y strategaeth derfynol yn gwneud yn siŵr bod Caerdydd yn cyflawni ar gyfer Cymru beth mae prifddinasoedd eraill y byd wedi'i gyflawni ar gyfer eu gwledydd.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gyfraniadau o bob rhan o'r Siambr, a chodwyd y materion canlynol:-

•	Diffyg amserlenni a chanlyniadau clir fel y gellir monitro a mesur y camau a gymerir mewn canlyniadau;
•	Diffyg integreiddio yn y strategaeth â'r Cynllun Datblygu Lleol a

	Strategaeth Drafnidiaeth, a dim ystyriaeth o egwyddorion dull un Cyngor.
•	Nid oes cyfeiriad at sut y bydd Caerdydd yn manteisio ar gael gwared ar dollau Pont Tywysog Cymru; a sut mae'n mynd i weithio gyda phartneriaid i
i	Sicrhau newidiadau i'r broses casglu a dyrannu ardrethi busnes gan Lywodraeth Cymru
ii	Pwyso am ddiweddariad ar ateb i ffordd liniaru'r M4
iii	Gweld cynnydd o ran darparu gorsaf bysiau Caerdydd
iv	Ystyried effaith Brexit ar ein heconomi.
•	Diffyg cyfleoedd ac ymgysylltu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig
•	Lleihau anghydraddoldeb a threchu tlodi
•	Diffyg cysylltiadau yn y Strategaeth i Brifysgolion Caerdydd a chanlyniadau i fod yn sail i sgiliau a datblygu sgiliau penodol.
•	Lleihau nifer y Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant a gwella'r cyfleoedd am swyddi i bobl ifanc mewn gofal
•	Datblygu Sgiliau – drwy ysgolion a cholegau'n gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion a busnesau Caerdydd
•	Seilwaith i alluogi dinasyddion i gael gafael ar drafnidiaeth neu symud o amgylch y ddinas ar droed neu ar feic.
•	Mynd i'r afael â'r angen i adnewyddu Heol Eglwys Fair ac economi 24 awr y ddinas.
•	A oedd pobl ifanc ac ysgolion yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Yn ystod y ddadl, cynigiodd y Cyngorydd Robson cyfeiriad yn ôl yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 25(a). Eiliodd y Cyngorydd Jenkins y cynnig.

Esboniodd yr Arglwydd Faer fod y cyfeiriad yn ôl at bwyllgor neu gorff priodol o dan Bapurau Gwyrdd Reol 21, ac mai'r Cabinet oedd y corff a'r penderfynwr priodol yn yr achos hwn. Nid oedd unrhyw ofyniad i bleidleisio, gan y byddai'r Cabinet yn ystyried y Strategaeth Economaidd Ddrafft ym mis Ebrill.

Roedd yr Aelod Cabinet yn siomedig â'r diffyg cyfraniadau adeiladol gan Aelodau Etholedig i lunio a dylanwadu ar gyfeiriad polisi'r Cyngor. Mynegodd bwysigrwydd gweithio gyda'r sector preifat i gynhyrchu buddsoddiad fel y gellir defnyddio arian cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor. Roedd yna sefydliadau a oedd yn mynegi diddordeb yng Nghaerdydd. Dim ond un elfen o'r datblygiad economaidd yng Nghaerdydd oedd y strategaeth.

#### 148 : CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL

Cynigiodd yr Aelod Cabinet, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Addasu Fflatiau a Llety Myfyrwyr a oedd i fod i gael eu hystyried yn y Cyngor ar 31 Ionawr i'w cymeradwyo gan y Cyngor. Roedd y ddau CCA wedi bod yn destun proses ymgynghori chwe wythnos.

Mae'r CCA Addasu Fflatiau drafft terfynol yn amlinellu polisi cynllunio newydd o ran datblygu fflatiau a gaiff eu trosi o ddefnyddiau eraill, ac mae wedi cymryd i ystyriaeth egwyddorion a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori i sicrhau bod datblygiadau o safonau dylunio a gofod addas a'u bod yn gyson â dyheadau cynllunio ehangach, megis safonau trafndiaeth a pharcio cynaliadwy a chyfleusterau casglu a storio gwastraff. Mae hefyd yn egluro Ymrwymadau Cynllunio ynghylch sbardunau ar gyfer tai fforddiadwy ac ymrwymadau eraill.

Mae'r CCA Llety Myfyrwyr yn amlinellu canllawiau cynllunio'r awdurdod o ran llety myfyrwyr pwrpasol. Nid yw'n gymwys i Dai Amlfeddiannaeth nac i fyfyrwyr sy'n byw mewn llety preifat neu gartrefi rhieni.

Mae'r Awdurdod Cynllunio yn cydnabod y rôl ddiwylliannol ac economaidd allweddol y mae prifysgolion a myfyrwyr yn ei chwarae yn y ddinas a'r angen dilynol am lety i fyfyrwyr. Mae hefyd yn cydnabod y gall datblygiadau sydd mewn lleoliad gwael ac wedi'u cynllunio'n wael gael effeithiau negyddol posibl ar y gymdogaethau lleol. Felly, mae'r Callawiau yn canolbwyntio ar sicrhau bod llety myfyrwyr o ansawdd uchel ac yn cael eu darparu mewn lleoliadau priodol a chynaliadwy.

Roedd y prif bryderon a godwyd fel rhan o'r broses ymgynghori yn ymwneud â dyluniad llety myfyrwyr a'r galw amdano, a phryderon ynglŷn â newidiadau i ddefnydd yn y dyfodol i ddefnyddiau nad ydynt yn rhai myfyrwyr. Nid yw hyn yn rhywbeth y gall y CCA ei ystyried, ar wahân i egluro'r safonau a'r gofynion ar gyfer llety myfyrwyr a phwysleisio y byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

Eiliodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, y Cynghorydd Keith Jones, y cynigion a chymeradwyodd waith y swyddogion cynllunio wrth ddatblygu'r CCA a oedd yn cefnogi'r polisi cynllunio ac oedd yn rhoi dulliau i'r pwyllgor sicrhau bod datblygiad yn cyrraedd safonau dylunio; meini prawf cynaliadwyedd ac maent yn ychwanegiad derbyniol at amgylchedd adeiledig Caerdydd. Mae'n ffaith bod gan lawer o ddinasoedd lety sylweddol i'w fyfyrwyr erbyn hyn sy'n dod â chymysgedd o gyfleusterau i ddinas a gwahanol rymoedd y farchnad. Yng Nghaerdydd, roedd rhai o'r datblygiadau hyn wedi rhyddhau mathau eraill o dai ar gyfer teuluoedd ac unigolion.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer ddadl a chodwyd nifer o faterion mewn perthynas ag Addasiadau Fflatiau; canllawiau dylunio Tai Amlfeddiannaeth; safonau gofod yn enwedig ar gyfer addasiadau fflatiau i gartrefi teuluoedd; cynaliadwyedd a hygyrchedd seilwaith trafndiaeth gyhoeddus; amgylchedd mwy diogel a gofod amwynder. Ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r materion a godwyd ac yn croesawu cefnogaeth cynghorwyr i'r ddau CCA newydd

PENDERFYNWYD – bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar:-

- Addasu Fflatiau
- Llety Myfyrwyr

fel y'i cynigiwyd.



*(Roedd Cyngorydd Bowen-Thomson wedi datgan buddiant personol a rhagfarnol ac wedi gadael y cyfarfod yn ystod ystyriaeth yr eitem hon.)*

*(Datganodd Uwch Reolwyr a effeithir gan yr eitem hon buddiant ariannol a gadawon nhw'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth yr eitem hon.)*

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet, Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cyngorydd Weaver, y Datganiad Polisi Tâl Blynyddol ar gyfer 2019-2020 a baratowyd yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011 ac i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2019. Mae angen i'r Cyngor yn unol â'i ymrwymiad i degwch a thryloywder gyhoeddi adroddiad y bwch cyflog rhwng y rhywiau fel rhan o'r Datganiad Polisi Tâl blynyddol.

Adroddodd yr Aelod Cabinet fod cytundeb cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (sef yr NJC) ar gyfer 2018/20 yn dilyn trafodaethau lleol ag undebau llafur yn cyflwyno'r raddfa gyflog newydd ar 1<sup>af</sup> Ebrill 2019. Ailadroddodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor wedi ymrwymo i'r her o leihau'r bwch cyflog rhwng y rhywiau yn unol â'i rwymedigaeth o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017. Nodwyd bod ychydig o ostyngiad wedi bod yn nifer y benywod, a chynnydd bychan yn nifer y gwrywod, a gyflogwyd gan y Cyngor y llynedd.

Cafodd yr adroddiad ei eilio gan Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd Huw Thomas.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth. Cafwyd sylwadau ynglŷn â'r dyfarniad cyflog i'r uwch reolwyr, yn enwedig o ran y cynnydd diweddar o 4.9% yn y Dreth Gyngor; y cynnydd yn nifer y swyddogion sy'n cael cyflog o £87,000 neu fwy; a'r gwahaniaeth sylweddol yn effaith y dyfarniad cyflog i reolwyr rheng flaen a rheolwyr canol o gymharu ag uwch reolwyr.

Yn ystod y drfodaeth, cynigiodd y Cyngorydd Williams gynnig heb rybudd o dan CPR25 (iv) i gyfeirio'r adroddiad yn ôl at y Cabinet. Eiliodd y Cyngorydd Robson y gyfeiriad yn ôl.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer yr Aelod Cabinet i ymateb i'r materion a godwyd cyn i bleidlais ar y diwygiad gael ei gwneud.

Yn unol â CPR 29 (d) yn union cyn y bleidlais, gwnaed cais i'r bleidlais gael ei chofnodi i'w chynnwys yn y cofnodion:

Cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar gyfeiriad yn ôl fel y'i cynigiwyd gan y Cyngorydd Williams fel a ganlyn:

O blaid:	Cynghorwyr Cowan, Driscoll, Ford, Gibson, Hudson, Jenkins, Jones-Pritchard, Kelloway, Lancaster, McEvoy, Owen, Parkhill, Keith Parry, Phillips, Robson, Graham Thomas, Walker a Williams.  (18)
-------------	---

Yn erbyn:	Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Ashgar Ali, Dilwar Ali, Bale, Berman, Bowden, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cunnah, De'ath, Derbyshire, Ebrahim, Elsmore, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Howells, Jacobsen, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Molik, Naughton, Jackie Parry, Patel, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Huw Thomas, Thorne, Weaver, Wild a Wong.  (47)
Yn ymatal:	Y Cynghorwyr McKerlich a Wood.  (2)

COLLWYD y cynnig i gyfeirio'n ôl

PENFERFYNWYD – bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflog 2019 – 20 i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2019.

#### 150 : DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Cynghorydd Goodway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfansoddiad, argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ar 11 Chwefror 2019 mewn perthynas â diweddariadau a materion i'w cynwys yng Nghyfansoddiad Caerdydd:

(i)	<u>Cod Llywodraethu Corfforaethol</u> - dyma'r ddogfen gyffredinol a baratowyd yn unol â'r saith egwyddor llywodraethu da a ddatblygwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE) yn eu cyhoeddiad ' <i>Cyflawni Fframwaith Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol</i> '.  Mae'r Cod yn sail i'r prosesau llywodraethu da o ran darparu eglurder a dull cyson o asesu er mwyn sicrhau llywodraethu a gwelliannau cadarn y gall Aelodau eu dibynnu fel gwarcheidwaid pwrs y wlad.
(ii)	<u>Aelodau Dirprwyol Pwyllgor</u> – y cynnig i gynnwys rheol yn Rheolau a Gweithdrefnau Pwyllgorau a Chraffu oedd caniatáu ar gyfer Aelodau Dirprwyol Pwyllgor, cyn belled â'u bod yn bodloni un o'r chwe maen prawf. Byddai system amnewid yn helpu i ddiogelu cydbwysedd gwleidyddol ar bwyllgorau a sicrhau bod pob grŵp yn gallu sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu cynrychioli'n briodol ac yn llawn yn y broses o wneud penderfyniadau.
(iii)	<u>Cwestiynau Cyhoeddus yn y Cyngor Llawn</u> – y cynnig oedd fel mater o barch at yr holwr cyhoeddus, ac fel bod yr achos yn glir ac yn dryloyw, yn enwedig i'r rhai sy'n gwylio ar y gweddarllediad, y dylid caniatáu i aelodau o'r cyhoedd ddarllen allan eu cwestiwn

	yng nghyfarfod y Cyngor.
(iv)	<p><u>Pwyllgorau Craffu - Maint ac Aelodaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen</u> – Argymhellir y dylid cynnwys maint Pwyllgorau Craffu yn y Rheolau Gweithdrefnau Craffu (Rheol 1) ac argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol oedd y dylai maint Pwyllgor Craffu fod yn 9.</p> <p>Hefyd, ystyriodd y Pwyllgor Cyfansoddiad y darpariaethau presennol sy'n ymwneud â maint ac aelodaeth y grwpiau Gorchwyl a Gorffen, gan gynnig bod Rheolau'r Weithdrefn Graffu 1 a 2 yn cael eu diwygio i ganiatáu i aelodaeth y grwpiau Gorchwyl a Gorffen gynnwys unrhyw Aelodau Etholedig anweithredol, yn amodol ar uchafswm o naw aelod ar bob grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac y gellir gwahodd rhai nad ydynt yn gynghorwyr i gymryd rhan mewn ymchwiliadau Gorchwyl a Gorffen fel ymgynghorwyr arbenigol i grŵp Gorchwyl a Gorffen.</p>
(v)	<p><u>Dirprwyaethau'r Pwyllgor Cynllunio</u> – yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Cynllunio, mae nifer o ddiwygiadau wedi cael eu hystyried ac yn awr yn cael eu hargymell gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol i'w mabwysiadu gan y Cyngor llawn</p>

Eiliodd y Cynghorydd McKerlich fel aelod o'r Pwyllgor Cyfansoddiad yr argymhellion.

Nid oedd unrhyw gwestiynau na sylwadau ar y cynigion.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn

(1)	<b>CYMERADWYO'R COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL SYDD I'W YMGORFFORI YN RHAN 5 O'R CYFANSODDIAD;</b>
(2)	<b>CYMERADWYO'R NEWID ARFAETHEDIG I REOL 18 GWEITHDREFN CYFARFOD Y CYNGOR 'CWESTIYNAU CYHOEDDUS', I GANIATÁU I HOLWYR DDARLLEN ALLAN EU CWESTIYNAU YN Y CYNGOR;</b>
(3)	<b>CYMERADWYO'R RHEOL GWEITHDREFN AR GYFER PENODI AELODAU DIRPRWYOL I'W GYNNWYS YN RHEOLAU GWEITHDREFN CYFARFODYDD PWYLLGOR A RHEOLAU'R WEITHDREFN GRAFFU;</b>
(4)	cymeradwyo'r diwygiadau i Reolau Gweithdrefn Craffu 1 a 2 o ran maint Pwyllgorau a ffurfio grwpiau Gorchwyl a Gorffen; i'w diwygio fel a nodir yn Atodiad C; A
(5)	<b>CYMERADWYO'R NEWIDIADAU I DDIRPRWYAETHAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO MEWN PERTHYNAS Â SWYDDOGAETHAU CYNLLUNIO A SWYDDOGAETHAU PRIFFYRDD AR GYFER YMGORFFORI YN Y CYNLLUN DIRPRWYAETHAU YN RHAN 3 O'R CYFANSODDIAD.</b>

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Cyngorydd Jones-Pritchard adroddiad blynyddol 2018 y [Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd](#). Fel rhan o'i gyflwyniad, talodd y Cadeirydd deyrnged i gyfraniad gwerthfawr y Cyngorydd Jim Murphy at waith y Pwyllgor ers y cychwyn, bu farw'n cyngorydd hwyr y llynedd yn anffodus.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at waith y Pwyllgor a'r gwasanaethau cymorth a dderbyniwyd gan Gynghorwyr i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau amrywiol fel cynrychiolwyr etholedig, arweinwyr cymunedol ac eiriolwyr i etholwyr sy'n dod atynt gydag amrywiaeth eang o waith achos. Roedd system Ymholiadau'r Aelodau yn gyfleuster ardderchog i Aelodau gofnodi gwaith achos ac roedd gwelliannau wedi'u gweld mewn ymateb i hyn.

Roedd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar y canlynol:

•	sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion a gofynion Cynghorwyr, gan gadw mewn cof hefyd yr heriau ariannol y mae'r Cyngor yn wynebu;
•	darparu Strategaeth Ddysgu a Datblygu i Aelodau Etholedig;
•	llesiant Cynghorwyr;
•	adolygiad o Ddisgrifiadau Rôl Aelodau Etholedig a Rolau Penodol
•	adolygu a gwella'r cynllun Mentora presennol
•	datblygu proses Adolygiad Personol
•	camau gweithredu yn dilyn adolygiad Gwaith Craffu gan Swyddfa Archwilio Cymru
•	canlyniadau ac argymhellion yr adolygiad Craffu Polisi a Pherfformiad o effaith gwaith craffu yng Nghaerdydd
•	gweithio gyda chyrrff eraill gan gynnwys Panel annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol a rhwydweithiau democrataidd a chraffu i weithredu'r arferion gorau o ran llywodraethu a gwasanaethau i Aelodau

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gyfraniadau a chwestiynau i'r Cadeirydd oddi wrth yr Aelodau Etholedig. Codwyd nifer o faterion

•	Ymgysylltu â chraffu a democratiaeth a bod yn agored a phwysigrwydd cyfarfodydd gweddarlledu;
•	Cynyddu nifer y cyfarfodydd sy'n cael eu darlledu er mwyn gwella hygyrchedd i bob dinesydd;
•	Dylai'r Pwyllgor adolygu diogelwch personol yr Aelodau, gan gynnwys darparu dyfeisiau priodol;
•	Cynnwys pobl ifanc er mwyn iddynt ddeall llywodraethu ac ymgysylltu a chyfranogi yn y prosesau democrataidd
•	Datblygu gwell mynediad i gyfleoedd lles ar gyfer aelodau etholedig.

Croesawodd y Cadeirydd y sylwadau a gafwyd, gan addo ystyried yr eitemau hyn fel rhan o gynllun gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD – y dylid nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 152 : STRATEGAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Cynghorydd Jones-Pritchard y [Strategaeth Ddysgu a Ddatblygu i Aelodau Etholedig](#)

Cymeradwyodd y Cadeirydd yr adroddiad a phwysleisiodd bwysigrwydd dysgu i Aelodau Etholedig ac, er y cydnabuwyd na fyddai'n cynnwys cymorth o'r fath o bosibl, sut i ddarparu newyddion drwg neu safbwyntiau a all fod yn groes i'r Cyngor.

Gwahoddod yr Arglwydd Faer gwestiynau a sylwadau a chodwyd nifer o faterion gan gynnwys:

•	Y dysgu dwys sydd ar gael fel rhan o'r rhaglen gynefino a'r angen am hyn i barhau dros gyfnod yr aelodau etholedig yn eu swydd.
•	Datrysiadau dysgu unigoleddig a datblygiad anghenion hyfforddiant unigolion.
•	Cyrsiau blynyddol gwych academi arweinyddiaeth CLILC a'r pwysigrwydd o ddysgu achrededig.
•	Cymorth Academi Caerdydd i reolwyr ac a ellir rhoi'r un sylw i Aelodau Etholedig.
•	Cyfleoedd rhwydweithio a hyfforddiant allanol.
•	Diwylliant sefydliadol a manteision craffu a gwella'r broses o wneud penderfyniadau
•	Croesawyd y ffocws ar les, yn enwedig yr heriau a'r effaith o fod yn Aelod Etholedig ar fywyd teuluol a chyfrifoldebau gofalu
•	Dysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu gwybodaeth – e.e. sut i ddelio â gwaith achos.
•	Anogir yr holl Aelodau Etholedig i gymryd sesiynau ar gyfer yr Aelodau a'r amser a'r ymdrechion a wneir gan swyddogion er enghraifft Rhianta Corfforaethol.
•	Darparu TG a datblygu offer i gefnogi Aelodau Etholedig

Ymatebodd y Cadeirydd i'r materion a godwyd gan gydnabod y galw ar Aelodau Etholedig ac addawodd ystyried y materion hyn gyda'r Pwyllgor ac, yn bwysicach fyth, geisio gosod safonau rhagoriaeth yn y meysydd hyn ar gyfer y dyfodol.

PENDERFYNWYD – bod y Cyngor yn cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Ddysgu a Datblygu i Aelodau Etholedig yn unol â'r cynnig.

## 153 : DATGANIADAU

Derbyniwyd y datganiadau canlynol: -

Derbyniwyd y datganiadau canlynol: -

1	<a href="#">Datganiad yr Arweinydd</a> Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau a godwyd ar
---	---

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Meysydd lle'r oedd gwaith i'w wneud fel ein bod yn barod am Brexit a chynaliadwyedd gweithredoedd y Cyngor ei hun.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio i'r Cyngor ac Aelod Etholedig yn erbyn gwrth-hiliaeth ac annog amrywiaeth.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Agenda Dinas Fawr y Gorllewin.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymorth ar gyfer ffordd liniaru'r M4.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Edrych i'r gorllewin o'r ddinas i gefnogi undeb gyda dinasoedd eraill Cymru.</li> </ul>
2	<p><a href="#">Datganiad Tai a Chymunedau</a></p> <p>Gofynnodd yr Aelod Cabinet am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau etholedig ar lafar ar faterion a oedd wedi digwydd yn gynharach yn y dydd ynghylch pebyll mewn parcdir oddi ar Rhodfa'r Amgueddfa.</p> <p>Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor wedi pryderu'n arbennig am yr ardal hon oherwydd digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ogystal â materion iechyd a diogelwch.</p> <p>Mae staff Allgymorth y Cyngor wedi gwneud sawl ymdrech i ymgysylltu â deiliaid pebyll yno i ddarparu gwybodaeth a'u helpu i gael gafael ar wasanaethau llety a chymorth, fodd bynnag, mae rhai yn gwrthod ymwneud â ni.</p> <p>Gan fod y gwrsyll wedi torri'r is-ddeddfau yn gwahardd codi pebyll ym Mharciau Caerdydd, rhoddwyd rhybudd i adael ar y pebyll ddoe, ddydd Mercher, gan roi 24 awr i unigolion gael gwared ar y pebyll. Yn gynharach yn y dydd, roedd swyddogion y cyngor a gefnogwyd gan yr heddlu wedi mynychu i gael gwared ar y pebyll.</p> <p>Roedd staff Allgymorth hefyd ar gael i gynnig llety gan fod lle ar gael o hyd mewn amrywiaeth o opsiynau yn y ddinas ac anogwn unrhyw un y tu allan neu mewn pabell i dderbyn ein cynnig i ddod i mewn.</p> <p>Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar</p>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyniad ar draws llyfrgelloedd eraill y noson hynod lwyddiannus Harry Potter a digwyddiadau tebyg i annog pobl i ddarllen.</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Agor Cynllun Adfywio Maelfa a rhai materion ymwthiol</li> </ul>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr ystod o ddulliau o gefnogi rhai sy'n cysgu ar y stryd i mewn i ganolfannau a derbyn gwasanaethau a chymorth i lety arall.</li> </ul>
3	<p><a href="#">Datganiad ar Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd</a></p> <p>Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar:</p>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cywirdeb data'r Ymgyrch Addysg Ailgylchu a phriodoldeb y strydoedd wedi'u targedu a pham na chysylltwyd â'r Cynghorwyr am eu profiad. Pryderon am breswylwyr</li> </ul>

		oedrannus a galwadau diwahoddiad.
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pryderon bod casgliadau coll yn cynyddu</li> </ul>
4		<p><a href="#">Datganiad ar Blant a Theuluoedd</a> Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar</p>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella recriwtio a chadw staff a'r ailstrwythuro presennol yn y gwasanaethau i blant a'r cynnydd o ran penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol parhaol ar gyfer Gwasanaethau Plant</li> </ul>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diweddarau'r cynnydd sy'n cael ei wneud i leihau nifer y plant sy'n mynd i ofal</li> </ul>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno'r broses o gyflwyno'r cynnig 30 awr ar gyfer gofal plant ledled y ddinas.</li> </ul>
5		<p><a href="#">Datganiad Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant</a> Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar</p>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y cymorth a roddir i'r henoed ac i bobl sy'n agored i niwed gyda gwasanaeth 'Ewch â fi Adref'</li> </ul>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwyddiant y digwyddiad Corff Actif</li> </ul>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Croesawyd y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer dinasyddion gan y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol.</li> </ul>
6		<p><a href="#">Datganiad Cynllunio a Thrafnidiaeth Strategol</a> Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar</p>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pryderon ynghylch tynnu ymaith gwasanaethau bysiau a'u dyfodol, fel llwybrau 28, 28A a 64 ac 86.</li> </ul>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwahanu ffyrdd beicio, a manylion ar y 5<sup>ed</sup> ffordd beicio, ac ymgynghori ag aelodau lleol ar gynlluniau.</li> </ul>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Clampio a chymryd cerbydau i ffwrdd.</li> </ul>
7		<p><a href="#">Datganiad ar Fuddsoddi a Datblygu</a> Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar:</p>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynigion ar gyfer ail-ddatblygu chwarter y gamlas a chais am sicrwydd y byddai Cilgant Guilford yn cael ei gynnwys</li> </ul>
8		<p><a href="#">Datganiad ar Ddiwylliant a Hamdden</a> Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar:</p>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgynghoriad digonolrwydd cyfleoedd chwarae a sut y caiff arian ei wario.</li> </ul>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogaeth i hyfforddeiaeth glaswellt chwaraeon a'r gobaiith y bydd yn symud i ffwrdd o laswellt artiffisial.</li> </ul>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diolch i swyddogion y Cyngor am y parêd Dydd Gŵyl Dewi a chais i gael cyllid ar gyfer gorymdaith yng Nghaerdydd.</li> </ul>
9		<p><a href="#">Datganiad Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau</a> Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar:</p>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Croesawu'r rhaglen Urddas Mislif ac anogwyd ymwybyddiaeth staff i sicrhau ei bod yn hygyrch i ddisgyblion trawsrywiol nad ydynt efallai yn cyflwyno eu hunain fel menywod i bawb.</li> </ul>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Beirniadaeth ynghylch materion LHDT mewn addysg</li> </ul>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Effaith toiledau unrhywiol ar raglen Urddas Mislif.</li> </ul>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llongyfarchiadau i bob un o'r ysgolion ar eu hadroddiadau Arolwg Estyn a thynnodd yr Aelod Cabinet sylw at y gwaith</li> </ul>

		sy'n cael ei wneud gan y consortiwm addysg i godi safonau gan annog gweithio rhwng ysgolion, a'r trafodaethau gydag ysgolion a partneriaid ar strategaeth 2030 Caerdydd, sy'n anelu at ddod â thrên grisiog arall.
10	<a href="#">Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad</a>	Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar:
		<ul style="list-style-type: none"><li>• Pryderon caethwasiaeth fodern â defnyddio gweithwyr a ffyrdd o adrodd.</li></ul>
		<ul style="list-style-type: none"><li>• Canlyniad ystyrlon ar erlyniadau tipio anghyfreithlon.</li></ul>

#### 154 : CYNNIG 1

Dyweddodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Carter a'i gefnogi gan y Cynghorydd Wood, wedi'i dderbyn yn unol â Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor a'i gynnwys yn y Gwahoddiad ar gyfer y cyfarfod. Derbyniwyd un diwygiad i'r cynnig.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Carter gan yr Arglwydd Faer i gynnig ei ddiwygiad fel a ganlyn:

Mae'r cyngor hwn yn cydnabod bod lleihau allyriadau carbon o gartrefi yn dod â manteision ariannol i'r meddianwyr a manteision amgylcheddol i gymdeithas.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi

- Targed Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050, yn erbyn y llinell sylfaen o 1990.
- Mae adeiladau preswyl yn cyfrannu 7.5% o allyriadau Cymru.
- Mae 23% o gartrefi Cymru mewn tloidi tanwydd.
- Llwyddiant sefydliadau fel Prifysgol Caerdydd o ran dangos sut y gellid adeiladu cartrefi di-garbon am gost isel.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:

1. Ymrwymo i sicrhau bod y tai cyngor a gaiff eu hadeiladu ar ôl 2022 yn ddi-garbon gyda chyflenwadau glân o ynni ac effeithlonrwydd ynni uchel wedi'u cynllunio o'r dechrau.

Datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol i gynyddu nifer y cartrefi preifat sy'n cael eu hadeiladu i safonau di-garbon.

Eiliodd y Cynghorydd Wood y cynnig.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gynigydd y diwygiad y Cynghorydd Lynda Thorne i gyflwyno ei diwygiad.

Ar ôl pwynt bwled 3 i ychwanegu'r tri phwynt bwled canlynol:-



- *Mae gan raglen 'Cartrefi Caerdydd' y Cyngor feini prawf penodol ar gyfer perfformiad ynni'r cyngor a chartrefi preifat sy'n gofyn am ddefnyddio dull 'adeiledd yn gyntaf' – gan wneud adeiladwaith yr adeilad mor ynni effeithlon â phosibl, gan leihau'r galw am ynni/gwres a helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.*
- *Mae'r Cyngor yn treialu datblygiad 'PassivHaus' yng Ngham 1 rhaglen Cartrefi Caerdydd ac mae wedi derbyn cyllid Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn.*
- *Mae'r Cyngor yn treialu prosiect adeiladu modwlar hynod effeithlon ar ynni yng Ngham 1 rhaglen Cartrefi Caerdydd ac mae wedi derbyn cyllid Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn.*

Mae Pwynt Bwled 4 yn dod yn Bwynt Bwled 7 ac yn dileu'r geiriau 'cost isel sydd i'w disodli fesul *graddfa*.

Penderfyniad 1 - dileu'r geiriau 'sicrhau bod tai cyngor a adeiladwyd ar ôl 2022 yn ddi-garbon' a rhoi yn lle hynny

*adolygu pob cynllun peilot sydd wedi darparu cartrefi di-garbon (neu bron yn gartrefi di-garbon) gan ddefnyddio ...*

Penderfyniad 1 - dileu'r penderfyniad a rhoi yn ei le:-

2. *Ymrwymo i leihau allyriadau carbon yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n dod i'r amlwg ar y cyfle cyntaf posibl*

Ychwanegu 3<sup>ydd</sup> penderfyniad fel a ganlyn:

3. *Ymrwymo i gyflwyno prosiect peilot di-garbon yng Ngham 2 rhaglen Cartrefi Caerdydd fel astudiaeth ar y cyd â Llywodraeth Cymru gan ddarparu dadansoddiad o gostau cymharu eiddo a adeiladwyd ar sail rheoliadau adeiladu, i Adeiledd yn Gyntaf, i Passivhaus ac i Ddi-garbon.*

Mae'r Cynnig Diwygiedig yn darllen:

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod lleihau allyriadau carbon o gartrefi yn dod â manteision ariannol i'r meddianwyr a manteision amgylcheddol i gymdeithas.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi

- Targed Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050, yn erbyn y llinell sylfaen o 1990.
- Mae adeiladau preswyl yn cyfrannu 7.5% o allyriadau Cymru.
- Mae 23% o gartrefi Cymru mewn tlodi tanwydd.
- Mae gan raglen 'Cartrefi Caerdydd' y Cyngor feini prawf penodol ar gyfer perfformiad ynni'r cyngor a chartrefi preifat sy'n gofyn am ddefnyddio dull 'adeiledd yn gyntaf' – gan wneud adeiladwaith yr adeilad mor ynni effeithlon â phosibl, gan leihau'r galw am ynni/gwres a helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.
- Mae'r Cyngor yn treialu datblygiad 'PassivHaus' yng Ngham 1 rhaglen Cartrefi Caerdydd ac mae wedi derbyn cyllid Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn.

- Mae'r Cyngor yn treialu prosiect adeiladu modwlar hynod effeithlon ar ynni yng Ngham 1 rhaglen Cartrefi Caerdydd ac mae wedi derbyn cyllid Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn.
- Llwyddiant sefydliadau fel Prifysgol Caerdydd o ran dangos sut y gellid adeiladu cartrefi di-garbon ar raddfa fawr.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:

2. Ymrwymo i adolygu'r holl gynlluniau peilot sydd wedi darparu cartrefi di-garbon (neu bron yn gartrefi di-garbon) gan ddefnyddio cyflenwadau glân o ynni ac effeithlonrwydd ynni uchel wedi'u cynllunio o'r dechrau.
3. Ymrwymo i leihau allyriadau carbon yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n dod i'r amlwg ar y cyfle cyntaf posibl
4. Ymrwymo i gyflwyno prosiect peilot di-garbon yng Ngham 2 rhaglen Cartrefi Caerdydd fel astudiaeth ar y cyd â Llywodraeth Cymru gan ddarparu dadansoddiad o gostau cymharu eiddo a adeiladwyd ar sail rheoliadau adeiladu, i Adeiledd yn Gyntaf, i Passivhaus ac i Ddi-garbon

Eiliodd y Cynghorydd Michael y diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiad.

Ar ddiwedd y drafodaeth, gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Carter i ymateb i'r eitemau a godwyd yn ystod y drafodaeth. Nid oedd y Cynghorydd Carter yn derbyn y diwygiad.

Symudodd yr Arglwydd Faer i'r bleidlais ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Thorne.

DERBYNIWYD y Diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Thorne fel cynigiwr y Cynnig Sylweddol i ymateb.

Symudodd yr Arglwydd Faer i'r bleidlais ar y Cynnig Sylweddol.

PASIWYD y Cynnig Sylweddol fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod lleihau allyriadau carbon o gartrefi yn dod â manteision ariannol i'r meddianwyr a manteision amgylcheddol i gymdeithas.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi

- Targed Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050, yn erbyn y llinell sylfaen o 1990.
- Mae adeiladau preswyl yn cyfrannu 7.5% o allyriadau Cymru.

- Mae 23% o gartrefi Cymru mewn tlodi tanwydd.
- Mae gan raglen 'Cartrefi Caerdydd' y Cyngor feini prawf penodol ar gyfer perfformiad ynni'r cyngor a chartrefi preifat sy'n gofyn am ddefnyddio dull 'adeiledd yn gyntaf' – gan wneud adeiladwaith yr adeilad mor ynni effeithlon â phosibl, gan leihau'r galw am ynni/gwres a helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.
- Mae'r Cyngor yn treialu datblygiad 'PassivHaus' yng Ngham 1 rhaglen Cartrefi Caerdydd ac mae wedi derbyn cyllid Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn.
- Mae'r Cyngor yn treialu prosiect adeiladu modwlar hynod effeithlon ar ynni yng Ngham 1 rhaglen Cartrefi Caerdydd ac mae wedi derbyn cyllid Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn.
- Llwyddiant sefydliadau fel Prifysgol Caerdydd o ran dangos sut y gellid adeiladu cartrefi di-garbon ar raddfa fawr.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:

5. Ymrwymo i adolygu'r holl gynlluniau peilot sydd wedi darparu cartrefi di-garbon (neu bron yn gartrefi di-garbon) gan ddefnyddio cyflenwadau glân o ynni ac effeithlonrwydd ynni uchel wedi'u cynllunio o'r dechrau.
6. Ymrwymo i leihau allyriadau carbon yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n dod i'r amlwg ar y cyfle cyntaf posibl

Ymrwymo i gyflwyno prosiect peilot di-garbon yng Ngham 2 rhaglen Cartrefi Caerdydd fel astudiaeth ar y cyd â Llywodraeth Cymru gan ddarparu dadansoddiad o gostau cymharu eiddo a adeiladwyd ar sail rheoliadau adeiladu, i Adeiledd yn Gyntaf, i Passivhaus ac i Ddi-garbon.

155 : CWESTIYNAU LLAFAR

Cwestiwn – y Cynghorydd Hudson

Faint o bobl sydd wedi colli eu swyddi yng Nghyngor Caerdydd, p'un ai'n wirfoddol neu wedi'u gorfodi i wneud yn y cyfnod 2012-2017 ac ers dechrau 2017 hyd heddiw?

Ateb – y Cynghorydd Weaver

Mae'r adroddiad yn un sobreiddiol, yn y pum mlynedd ariannol o 2012/13 i 2016/17, cafodd 1,755 o gyflogeion, mewn ysgolion ac o fewn y Cyngor, eu diswyddo ac yn y ddwy flynedd ariannol ers hynny, mae'r ffigwr ar 296 o weithwyr. Felly dyna gyfanswm o 2051 o weithwyr sydd wedi cael eu diswyddo gan Gyngor Caerdydd, mae hwn yn ffigwr tebyg iawn i awdurdodau o wahanol faint yng Nghymru ac yn wir yn Lloegr, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad sylweddol mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd o galedi.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Hudson

Faint o'r rhain a ailgyflogwyd wedyn naill ai'n amser llawn neu'n rhan-amser a chontractau dros dro?

Ateb – y Cyngorydd Weaver

Mae'n ddrwg gennyf, Gyngorydd, ond nid yw'r wybodaeth gennyf wrth law.

Ceir rheolau ynghylch ailgyflogi gan unrhyw gorff y cewch eich diswyddo ohono, ni allwch gael eich ail-gyflogi ar unwaith, os yw hynny wedi digwydd blynnyddoedd ar ôl y diswyddo, efallai fod rhai pobl wedi gwneud ond ni fyddai'r wybodaeth gennyf wrth law. Fodd bynnag, ceisiaf ddod o hyd iddi ar eich cyfer ar ôl y cyfarfod hwn.

Cwestiwn – y Cyngorydd Berman

A fydd y Cyngor yn ymateb yn gadarnhaol i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru o'r enw '*Pwysau Iach: Cymru Iach*' sy'n nodi ei huchelgeisiau cenedlaethol i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru?

Ateb – y Cyngorydd Huw Thomas

A gaf i longyfarch y Cyngorydd Berman ar ei daith elusennol ddiweddar i'r Himalayas, gan ddangos cyflwr corfforol y gallwn ni i gyd anelu ato.

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd yn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, gyda'r gwaith hwn yn cael ei arwain yn lleol gan Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r holl sefydliadau partner, gan gynnwys y Cyngor, wedi cael cyfle i gyfrannu at hyn.

Bydd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, ar ran y BGC, hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu lleol fel ymateb cadarnhaol i'r uchelgeisiau Cenedlaethol i leihau gordewdra yng Nghymru a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd amrywiaeth eang o fentrau'r Cyngor yn cyfrannu at y gwaith hwn, gan gynnwys, er enghraifft, Strategaeth Fwyd newydd Caerdydd a'n gwaith i hyrwyddo teithio llesol. Bydd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn adrodd am ddiweddariadau i'r gwaith hwn yn y dyfodol i'r BGC.

Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Berman

O ystyried bod strategaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys llawer o gynigion sy'n adlewyrchu'r rhai a gyflwynwyd gan grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol yn ein cynnig ar y pwnc hwn y llynedd - sef rhywbeth y gwnaeth diwygiad Llafur ei ddileu ar ôl hynny os cofiwch chi -syniadau fel cwtdogi ar hysbysebu bwyd afiach, gweithio gyda busnesau lleol i wella'r ddarpariaeth o wybodaeth am faeth o orsafoedd ail-lenwi dŵr, defnyddio'r system gynllunio i helpu i hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw, hyrwyddo cynlluniau gweithredu lleol, hyrwyddo'r defnydd o chwaraeon cymunedol a hefyd gweithio gydag ysgolion.

A ydych yn edifar efallai nad oeddech yn fodlon cefnogi syniadau mor dda yn gynharach pan oedd y Cyngorydd Sandrey a minnau wedi eu cyflwyno?

Ateb – y Cyngorydd Huw Thomas

Nac ydw, ac fel yr eglurwyd ar y pryd, roedd rhesymau da iawn ac enghreifftiau da iawn a oedd yn cael eu datblygu fel Cyngor i gefnogi mentrau o'r fath, ond rwy'n llongyfarch yr Aelod am lobio Llywodraeth Cymru.

Cwestiwn – y Cynghorydd Keith Parry

Pa gamau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i roi cymhorthdal ar gyfer llwybr bws 64/65 i ddarparu gwasanaeth bws bob awr rhwng yr Ysbyty Athrofaol, yr Eglwys Newydd, Danescourt, Pentre-Baen, Bwlch Road, Treganna a Stryd Westgate? Mae'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig o Ddiwrnod Ffŵl Ebrill yn wael iawn ac nid yw'n ddefnyddiol iawn i lawer o bobl na allant gerdded yn bell ac maent yn dymuno ymweld â'r Ysbyty Athrofaol neu ganol y ddinas. Mae gan y gwasanaeth a gynigir fylchau o ddwy awr a hanner yn yr amserlen a dim gwasanaeth ar y Sul.

Ateb - y Cynghorydd Wild

Yr oedd Bws Caerdydd ar fin tynnu'r gwasanaeth hwn yn ôl ar ddiwedd y mis hwn am nad oedd digon o bobl yn ei ddefnyddio, ond yn dilyn trafodaethau rhwng swyddogion y cyngor a'r cwmni, yr wyf yn falch bod rhywfaint o'r gwasanaeth wedi'i achub, yn amodol ar rai newidiadau i'r amserlen. Bydd yn parhau i ddarparu cyswllt uniongyrchol pwysig i Ysbyty Athrofaol Cymru a chanol y ddinas, a fyddai wedi cael eu tynnu'n ôl fel arall.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Keith Parry

Yn anffodus, mae gan y gwasanaeth bws newydd fylchau o ddwy awr a hanner yn yr amserlen ac nid yw o fawr o werth i bobl sy'n dymuno teithio'n gyfleus i'r Ysbyty Athrofaol o Ystum Taf, Llandaf, Danescourt a Fairwater.

A allwch chi gymryd camau pellach i gael y gwasanaeth hwn yn cael ei roi ar gymhorthdal fel y gellir darparu gwasanaeth bob awr?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Fel yr eglurwyd gennym, ni allwn barhau i ddarparu cymorthdaliadau ar bob llwybr. Yr wyf, yn hollol, yn awyddus i weld a allwn wella'r gwasanaeth hwn ond, yn bwysicaf oll, i weld a allwn gael mwy o bobl i'w ddefnyddio. Yr wyf yn gofyn i chi ac yn rhoi rhywfaint o gyfrifoldeb yn ôl ar eich cyd-Aelodau ward, o ran gofyn i chi feddwl ei bod yn fwy neu'n llai tebygol y bydd pobl yn defnyddio'r bws pan rydych yn ei ddisgrifio fel un gwael iawn a fawr ddim yn cael ei ddefnyddio gan lawer o bobl. Mae hyn yn ymwneud â phob un ohonom yn cymryd cyfrifoldeb am annog pobl i ddefnyddio'r bysiau.

Cwestiwn - y Cynghorydd De'Ath

Mae adroddiad ar safle cerddoriaeth fyw y DU gan San Steffan wedi dod i'r casgliad "bod rhagfarnau yn erbyn artistiaid 'Grime' yn peryglu un o allforion cerddorol mwyaf cyffrous y DU. Mae'r Pwyllgor Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn galw am ganllawiau newydd ar gyfer yr heddlu ac awdurdodau lleol Lloegr, a fyddai'n sicrhau nad yw actau cerddoriaeth drefol yn cael eu targedu'n annheg." A allai

Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu wneud datganiad ynghylch y sefyllfa yng Nghaerdydd?

Ateb – y Cynghorydd Mackie

Roedd adroddiad y Pwyllgor Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gerddoriaeth fyw yn cynnig adolygiad pellgyrhaeddol o sawl agwedd ar gerddoriaeth fyw yn y DU. Roedd yn cynnwys sylwebaeth ar y diddymiad gan yr heddlu Metropolitanaid o un o'u ffurflenni asesu risg ar ôl pryderon ei fod yn targedu'n annheg actau trefol a cherddoriaeth 'Grime' dros faterion troseddu ac anhrefn posibl mewn cyngherddau.

Un o'r argymhellion yn yr adroddiad yw y dylai'r rhanddeiliaid perthnasol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu canllawiau ar gyfer awdurdodau trwyddedu, heddluoedd a lleoliadau cerddoriaeth ar sut i sicrhau nad yw actau cerddoriaeth drefol yn cael eu targedu'n annheg.

Byddai'r Cyngor yn cefnogi'r dull hwn o weithredu ac mae eisoes yn cydnabod pwysigrwydd bywiogrwydd diwylliannol yn ei ddatganiad o Bolisi Trwyddedu, sy'n annog sector adloniant amrywiol ac, ar yr un pryd, yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd De'Ath

Pe bai argymhellion mwy penodol ynglŷn â'r math hwn o gerddoriaeth, wrth symud ymlaen i strategaeth gerddoriaeth y Cyngor a fydddech chi'n ystyried gwneud argymhellion eich hun i sicrhau bod y math arbennig hwn o gerddoriaeth yn parhau i ffynnu ym mhrifddinas Cymru?

Ateb – y Cynghorydd Mackie

Mae ein datganiad polisi trwyddedu eisoes yn cefnogi amrywiaeth pob math o gerddoriaeth ac mae Caerdydd am gynnal digwyddiadau y mae ein trigolion am eu cael, byddem yn hapus i weithio gyda'r heddlu a hyrwyddwyr cerddoriaeth drefol a lleoliadau digwyddiadau i sicrhau bod pob math o ddigwyddiadau cerddoriaeth yn cael eu ar gael yng Nghaerdydd ac fe'u cynhelir mewn ffordd ddiogel a chyfrifol.

Cwestiwn – y Cynghorydd Graham Thomas

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am y cynnydd o ran cyflwyno parthau 20 m.y.a. ledled y ddinas?

Fel Cynghorydd Ward tuag at gefn y ciw oherwydd polisi 'canol y ddinas allan', a gyda thrigolion pryderus yn gofyn i mi pryd y gallai hyn ddod i bentref Creigiau, a allwch chi gynnwys faint sydd wedi'u cwblhau hyd yn hyn, ac amserlenni ar yr ardaloedd sy'n weddill?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Mae'n braf iawn gweld cynifer o gynghorwyr yn dod ymlaen yn gofyn am barthau 20 m.y.a. ond nid oeddent yn arbennig o boblogaidd nifer o flynyddoedd yn ôl.

Fel y gwyddoch rydym yn mynd allan o ganol y ddinas, byddwch yn gwerthfawrogi fod gan ardaloedd i'r gogledd o'r A48 rai nodweddion unigryw a bydd angen eu hasesu'n gywir i sicrhau y bydd cynlluniau'n gweithio'n dda pan gânt eu gosod.

Byddwch yn falch o wybod bod cais am arian wedi cael ei wneud i Lywodraeth Cymru i gefnogi astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer yr ardaloedd hyn er mwyn ystyried y materion hyn.

Mae'n anodd i mi roi amserlen glir oherwydd yr hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd, fel y clywsoc'h efallai, yw ein bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno terfynau cyflymder diofyn ar gyfer Caerdydd gyfan a fydd yn ei gwneud yn llawer haws ac yn fwy effeithlon i'w gweithredu ar draws y ddinas.

Cwestiwn Ategol – y Cynghorydd Graham Thomas

Dylwn ddechrau drwy ddweud fy mod yn cefnogi'r polisi parthau 20 m.y.a. yn fawr, ond mae fy sylwad yn ymwneud mewn gwirionedd â'r ffordd y mae'n cael ei gyflwyno ar draws y ddinas.

Credaf fod dadl gref i'w gwneud dros yr ardaloedd gwledig. Er bod llai o dagfeydd ar y ffyrdd, mae eu traffig yn llawer cyflymach, ac mae pobl sy'n defnyddio'r pentrefi fel llwybrau byr a chlou o bosibl yn fwy peryglus ac o ganlyniad efallai y bydd rhieni'n ofni gadael i'w plant symud yn ddirwysr o amgylch y pentref.

Sut y gallaf ddylanwadu ar y polisi 'canol y ddinas allan' hwn nad yw'n amlwg yn helpu'r ardaloedd gwledig, ac a fyddwch yn edrych i weld a oes ardaloedd eraill a allai fod ag angen mwy o'r parthau hyn na'r rhai sydd â blaenoriaeth ar hyn o bryd?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Yr wyf wedi ymrwymo i weld parthau 20 m.y.a. ar draws y ddinas gyfan fel y credaf y gwyddoch.

O ran mynd allan o'r canol, dyna'r rhan o'r lle yr ydych yn debygol o gael y defnydd mwyaf o deithio llesol o ran pobl yn cerdded, yn beicio. Mae hynny fel rhan o'r meddylfryd dros ddechrau yno.

Bydd unrhyw gynghorydd sy'n dymuno ceisio dod â phethau ymlaen yn gynt yn gallu gweld a allwn ni wneud hynny. Yr ydym hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru am y terfyn diofyn, a fyddai o gymorth pendant, ac yr wyf yn fodlon trafod hynny gyda chi.

Cwestiwn – y Cynghorydd Taylor

Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddadfuddsoddi'r mwy na £86 miliwn o gronfeydd pensiwn sydd ar hyn o bryd yn cael eu buddsoddi mewn tanwydd ffosil?

Ateb – y Cynghorydd Weaver

Mae'n gwestiwn pwysig ac mae'n debyg mai dyna pam y gofynasoch hynny fel cwestiwn ysgrifenedig hefyd, felly byddwn yn eich cyfeirio at yr ateb ac yr wyf yn fodlon derbyn unrhyw gwestiwn atodol.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Taylor

Y cyfan yr oeddwn am ei wneud oedd gofyn pa gyfleoedd yr ydych yn eu dilyn o ran buddsoddi mewn ynni glân a sut y gallwn ddefnyddio hynny er budd cartrefi yng Nghaerdydd. Dengys rhywfaint o waith ymchwil diweddar fod portffolios sydd wedi dadfuddsoddi mewn tanwyddau ffosil ac wedi buddsoddi mewn ynni glân wedi rhagori ar y cynlluniau hynny. A ydych yn dal i fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil neu a allech amlinellu'r hyn yr ydym yn ei wneud i fynd ar drywydd y cyfleoedd hynny.  
Ateb – y Cynghorydd Weaver

Mae'r Pwyllgor Pensiynau a swyddogion a Chronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro yn ystyried amrywiaeth eang o bethau sy'n golygu lleihau ein hamlygiad i allyriadau carbon ym mhob un o'n buddsoddiadau ac o bosibl, tynnu oddi wrth echdynnu tanwydd ffosil neu ffurf arall ar eiriad i'r perwyl hwnnw a hefyd fuddsoddi mewn ynni gwyrdd a glân.

Mae pensiynau Llywodraeth Leol ar gam cymharol gynnar yn hyn o beth. Dim ond un neu ddau o awdurdodau a ddatganodd dadfuddsoddi mewn gwirionedd o ran echdynnu tanwydd ffosil neu gwmnïau tanwydd ffosil, ond y bwriad yw llunio strategaeth ar bolisi a buddsoddi mewn newid yn yr hinsawdd sy'n adlewyrchu hynny ac un a fydd yn ailadroddol ac yn adolygu ac ailbriso goramser yn barhaus. Mae'n swnio'n gadarnhaol iawn a byddwn yn ceisio cael y wybodaeth ddiweddaraf am y pethau mwyaf arloesol y mae cronfeydd eraill yn eu gwneud ac yna'n ceisio gweld a ydynt yn addas i gael eu copïo gan Gaerdydd a'r Fro.

Cwestiwn – y Cynghorydd Ford

Ceir problemau â thraffig ar Fairwater Road a Doyle Avenue a St Fagans Road. Mae gan Fairwater Road lwybr troed rhannol cul iawn a golau gwael. Defnyddir Doyle Avenue fel ffordd byr a chlou ar gyfer traffig. Felly, nid yw'r llwybrau hyn yn llwybrau diogel i'r ysgol. Pa rai yw'r prif llwybrau at Ysgol Cantonian ar hyn o bryd ar gyfer cerddwyr a thraffig?

Ateb - y Cynghorydd Wild

Gallaf eich sicrhau pan soniwch am ddiogelwch ar y ffordd fod swyddogion bob amser yn ymchwilio i'r holl bwyntiau yr ydych wedi'u codi, gallaf eich sicrhau eu bod wedi gwneud hynny. Mae swyddogion wedi dweud wrthyf fod nifer o welliannau wedi'u gwneud ar gyfer cerddwyr yn yr ardal honno yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys croesfannau i gerddwyr, croesfannau sebra, twmpathau cyflymder a hyd yn oed terfyn 20 m.y.a. felly mae llwybrau diogel addas ar gyfer cerddwyr.

Fel y gwyddoch, fel rhan o'r rhaglen Band B, mae cynigion i ail-ddatblygu safle Cantonian ac i ddarparu cyfleuster ysgol cwbl newydd. Mae'r Cynghorydd Merry a minnau yn ymrwymedig i sicrhau'r ddarpariaeth teithio llesol orau bosibl ym mhob un o'r ysgolion newydd hyn, gan gynnwys yr ysgol yno.



#### Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Ford

Allech chi fy nghynghori - oherwydd rydych wedi sôn am yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Cantonian - pa fynedfeydd fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer mynediad i Ysgol Cantonian?

#### Ateb - y Cynghorydd Wild

Nid yw'r wybodaeth honno gennyf wrth law, ond byddaf yn dod yn ôl atoch ynglŷn â'r mynedfeydd hynny i weld a ydynt ar y camau hynny gyda'r cynlluniau er nad wyf yn gwybod pa statws sydd ganddynt yn awr.

#### Cwestiwn – y Cynghorydd Burke-Davies

Roedd adroddiadau bod tacsis yng Nghaerdydd yn gwrthod 'teithiau byr' yn dilyn Sadwrn Sblennydd. Beth yw ymateb y cyngor a beth y gallwn ei wneud i sicrhau nad yw pobl sy'n byw yng Nghaerdydd neu sy'n ymweld â Chaerdydd yn cael eu gadael yn ddiymgeledd ac yn cael eu rhoi mewn perygl?

#### Ateb – y Cynghorydd Mackie

Deallwn fod problemau gyda theithiau byr yn cael eu gwrthod ar dacsis. Mae'n rhaid i gerbydau hacnai sydd ar safle neu'n stopio i godi teithiwr ar y stryd gymryd unrhyw deithiau sy'n dechrau ac yn cychwyn o fewn ffin y ddinas. Mae gwrthod gwneud hynny heb esgus rhesymol yn drosedd. Dylid rhoi gwybod am unrhyw achosion o wrthod i'r tîm Trwyddedu a fydd yn ymchwilio ac yn cymryd camau ffurfiol lle y bo'n briodol.

Gall hyn gynnwys erlyn neu roi'r mater gerbron y Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd a fydd yn ystyried addasrwydd y gyrrwr i ddal trwydded. Yn ogystal â patrolau arferol bob penwythnos, mae staff Trwyddedu hefyd wedi ymgymryd â nifer o ymarferion 'cwsmer cudd' drwy gydol y flwyddyn, sydd wedi arwain at erlyn gyrrwyr neu sancsiynau yn eu herbyn.

Rwyf hefyd wedi cyfarfod yn ddiweddar â staff a dau gynrychiolydd o 'Gynghrair Hacnai Caerdydd' a sefydlwyd yn ddiweddar, sef corff masnach sy'n cael ei gydnabod gan y Cyngor. Maent yn derbyn bod rhai gyrrwyr yn gadael i lawr y fasnach ehangach ar ddiwrnodau digwyddiadau mawr yn y ddinas ac maent yn gweithio gyda'r Cyngor, yn ogystal â rhanddeiliaid megis FOR Cardiff, i wella cydymffurfiaeth wrth symud ymlaen.

Mae timau Cyfathrebu a Digwyddiadau'r Cyngor hefyd yn rhoi cyngor a gwybodaeth i bobl sy'n mynychu digwyddiadau mawr i flaengynllunio pan fyddant yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r ddinas ac i beidio â gadael pethau i siawns.

#### Cwestiwn - y Cynghorydd Walker

Yn dilyn ein gohebiaeth ddiweddar, mae'n amlwg bod y galw gan y rhai sy'n symud i fyny o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Ysgol Glantaf yn fwy na'r

lleoedd sydd ar gael ar gyfer derbyn disgyblion o'r fath yn yr ysgol honno. Mae hyn o ganlyniad i dwf o leoedd cyfrwng Cymraeg a ddarperir ar lefel gynradd nad yw'r capasiti cynyddol yn Ysgol Glantaf yn cyfateb iddynt.

Fel y gwyddoch, mae hynny'n arwain at wrthod derbyn ymgeiswyr gan ysgolion o fewn dalgylch, sy'n ymddangos yn fypwyol. Bydd disgyblion o'r fath wedi mynychu dyddiau paratoi yn yr ysgol uwchradd honno ac wedi cynllunio i ymuno â'u ffrindiau a'u cyd-ddisgyblion yno ym mis Medi. Gall gwrthod yn annisgwyl ychydig o blant o'r fath fod yn ergyd drom iddynt hwy a'u teuluoedd.

Pa gynlluniau sydd ar y gweill i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Glantaf i gyfateb i'r galw cynyddol o fewn ei dalgylch?

Ateb - y Cynghorydd Merry

Cafodd y Cyngor gymeradwyaeth ar gyfer tri chais am arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y llynedd. Yn anffodus, nid oeddem yn llwyddiannus yn ein cais i ehangu'r ddarpariaeth uwchradd.

Er hynny, mae digon o gapasiti ar hyn o bryd yn y tair ysgol uwchradd Gymraeg bresennol yng Nghaerdydd i ateb y galw presennol. Yn y tymor byr i ganolig, gellid cwrrd â chynnydd yn y galw drwy gynyddu'r lleoedd yn yr ysgolion hyn.

Bydd cynigion i gynyddu lleoedd ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ac i ailalinio'r dalgylchoedd cysylltiedig yn cael eu dwyn ymlaen yn 2019/20. Rhaid i ehangu darpariaeth ysgolion gael ei ddwyn ymlaen mewn modd strategol ac amserol, nad yw'n cyfaddawdu'r ddarpariaeth bresennol, gall ehangu sylweddol mewn un ysgol effeithio ar y nifer sy'n cael lle mewn ysgolion eraill ac yn ei dro ar allu ysgolion i gydbwysu cyllidebau a denu a chadw staff.

Cwestiwn Atodol - y Cynghorydd Walker

Mae gwir angen i ni i gyd feddwl am hyn o safbwynt y rhieni, y plant dan sylw, a dim ond ychydig ohonynt a fyddai'n cael eu heithrio o'r cyfle hwn.

Rwy'n meddwl bod angen cyfatebiaeth capasiti rhwng yr ysgolion cynradd sy'n bwydo i mewn i ysgol uwchradd o fewn y dalgylch a gallu'r ysgolion uwchradd i'w cymryd. Credaf fod diffyg cyfatebiaeth yma, rhywbeth nad yw pobl yn ei ddeall. Nid oes pwynt dweud wrthynt bod ysgol arall draw acw y mae'n rhaid i chi anfon eich plentyn iddi, tra bydd yr holl blant eraill yn mynd i'r ysgol leol hon Ysgol Glantaf.

Hoffwn ofyn a allai'r swyddogion edrych ar hyn ac rydych wedi sôn yn 2019, efallai y bydd cyfle i edrych a all fod cydbwysedd, cyfatebiaeth rhwng y galw a'r capasiti?

Ateb - y Cynghorydd Merry

Byddwn yn ceisio sicrhau cyfatebiaeth capasiti ond mae hynny'n fwy nag ond cynyddu lleoedd, yn ogystal mae'n ymwneud â dalgylchoedd, a chredaf fod gan bawb ohonom ran i'w chwarae yn y Siambr hon pan ddaw'n fater o gynghori rhieni ynghylch cwblhau'r ceisiadau am leoedd mewn ysgolion.

Rydym eisoes wedi cydnabod bod gennym bwysau sylweddol ar leoedd mewn ysgolion uwchradd yn y blynyddoedd i ddod nes i ni gyflwyno ein lleoedd ychwanegol dan fand B ac mae'n bwysig iawn ein bod i gyd yn cynghori ein rhieni yn glŷn â chwblhau'r ceisiadau a'i roi yn y nifer o ddewisiadau y caniateir iddynt eu gwneud.

Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn gwneud hynny gan nad oes sicrwydd byth, hyd yn oed os ydych o fewn dalgylch ar gyfer ysgol, y byddwch yn cael lle yn yr ysgol honno ac mae hynny wedi bod yn wir erioed ac nid oes byth sefyllfa berffaith oherwydd hyd yn oed wrth i chi newid lleoedd a dalgylchoedd bydd y darlun yn newid eto.

Cwestiwn – y Cynghorydd Howells

Pa bwerau sydd gan y Cyngor i sicrhau bod landlordiaid yn addysgu eu tenantiaid i gael gwared ar eu gwastraff cartref yn briodol?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Yn gyffredinol, nid oes gan y Cyngor unrhyw bwerau cyfreithiol i orfodi landlord i addysgu ei denantiaid. Fodd bynnag, rydym yn gweithio gyda hwy i ddarparu pecynnau gwybodaeth a'i gwneud mor hawdd â phosibl i addysgu eu tenantiaid am ailgylchu a darparu'r cynwysyddion ailgylchu cywir. Mae swyddogion addysg gwastraff hefyd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â thenantiaid drwy guro drysau a thrafod wyneb yn wyneb.

Pan fydd trwydded Tai Amlfeddiannaeth wedi'i rhoi ar eiddo, rhaid i landlordiaid sicrhau hefyd bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a gwaredu gwastraff, yn unol â chynllun y Cyngor, a chymryd camau rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd y Tîm Gorfodi Tai o fewn y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir yn cynorthwyo yn yr achosion eithriadol hynny lle mae'r pwerau rheoli gwastraff presennol yn annigonol.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Howells

Mae'n amlwg mewn rhai achosion nad yw'r system bresennol yn gweithio. Yn fy ward mae eiddo a reolir yn wael sydd wedi'i droi'n fflatiau lle mae'r trigolion yn cyflwyno eu sbwriel yn barhaus ar y diwrnodau anghywir. Mae swyddogion gorfodi wedi cymryd deunydd addysg a gorfodaeth angenrheidiol, mae hyn naill ai'n cael ei anwybyddu neu mae preswylwyr newydd yn symud i mewn ac mae'r broses yn dechrau unwaith eto a phan fydd preswylwyr yn cysylltu â'r landlord, mae ond yn codi'i ysgwyddau a dweud mai dim byd ag ef yw hyn.

Siawns nad oes modd i ni gael landlordiaid i gymryd rhyw fath o gyfrifoldeb am y gwastraff a gynhyrchir gan y tenantiaid.

Onid yw hyn yn rhywbeth y gallem ei gynnwys o fewn y cynllun cofrestru landlordiaid neu os nad oes gennym y pŵer hwnnw, a allech lobïo Llywodraeth Cymru i weld a yw'n bŵer y gellid ei roi i lywodraeth leol?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Ar ôl ymweliad gan swyddogion gorfodi ac eraill, rwy'n siomedig bod y tramgwydd yn parhau i ddigwydd. Yr wyf yn hapus i gael cyfarfod â chi i'w drafod ac i weld pa gamau y gallem eu cymryd i helpu.

Cwestiwn – y Cynghorydd Dilwar Ali

A wnaiff yr Aelod Cabinet ddatganiad am y ffigyrau diweddaraf ar gyfer pobl sy'n byw ar y strydoedd yng Nghaerdydd?

Ateb – Y Cynghorydd Thorne

Mae'r gwasanaeth allgymorth yn ymgysylltu ar hyn o bryd â 73 o unigolion sy'n cysgu ar y stryd.

Ar hyn o bryd mae 25 o bebyll wedi'u lleoli o amgylch y ddinas, sy'n ostyngiad o'r 43 o bebyll a oedd i'w gweld ar 2<sup>il</sup> Chwefror eleni.

Mae'n bwysig cydnabod, wrth i wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau partner gefnogi pobl i ddod i lety neu gael gwared ar bebyll y rhoddwyd y gorau iddynt, y bydd newydd-ddyfodiaid yn cysgu ar y stryd ac mewn pebyll newydd hefyd.

Mae'r gwasanaeth allgymorth wedi helpu 40 o unigolion i gael llety ers mis Ionawr, ac mae'n parhau i roi cyngor a chymorth i bawb sy'n cysgu ar y stryd, hyd yn oed os ydynt yn dewis peidio â dod i mewn i'r cartref.

Cwestiwn – y Cynghorydd Owen

Yn dilyn y cynnig a basiwyd yn y Cyngor Llawn ym mis Tachwedd, a all yr Aelod Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y gwaith y mae wedi'i wneud gyda Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r Gymdeithas Alzheimer i fapio anghenion pobl sy'n byw gyda dementia ledled Caerdydd, a sefydlu lle mae angen gwasanaethau ychwanegol, yn enwedig yng Ngogledd Caerdydd?

Ateb – Y Cynghorydd Elsmore

Yr oeddwn yn falch o ddarparu diweddariad cynhwysfawr i'r Aelodau ym mis Ionawr ar ein cyflawniadau hyd yma, yn ddigon i ddweud ein bod yn gweithio'n agos iawn gyda Bwrdd lechyd y Brifysgol ac Alzheimer's Society Cymru i ddeall yr angen am wasanaethau ychwanegol ac yr ydym yn datblygu y ffordd rydym yn gweithio i adlewyrchu'r dystiolaeth. Er enghraifft, mae'n amlwg o'r gwaith hwn bod angen gwella cyfraddau diagnosis ar draws y ddinas.

Caiff y rhan fwyaf o bobl sy'n byw gyda dementia ar gam cynnar eu cynorthwyo i gael mynediad i wasanaethau'n lleol i'r lle maent yn byw ac o'ch safbwynt chi ar gyfer Gogledd Caerdydd, bydd lansio Hybiau Lles Cymunedol y mis nesaf, gan gefnogi gweithgareddau dementia sy'n benodol i anghenion yr ardal, yn mynd gam o'r ffordd tuag at ddiwallu anghenion eich trigolion.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Owen

Rydych yn hollol iawn o ran yr angen i wella'r diagnosis yn gynnar. Derbynnir yn gyffredinol bellach fod 40000 o bobl ledled Cymru yn byw gyda dementia. Rydym wedi siarad am argyfwng heno, ond rwy'n credu bod hwn yn argyfwng y mae angen i ni ei ddeffro yng Nghaerdydd a byddwn yn awgrymu bod miloedd o drigolion Caerdydd o bosibl yn byw gyda dementia bob dydd.

Yr ydych yn cymryd poblogaeth yr Eglwys Newydd, mae ganddi boblogaeth o chwe blynedd yn uwch na'r oedran cymedrig yng Nghaerdydd, mae gan boblogaeth Llysfaen boblogaeth, sydd 11 mlynedd yn uwch na'r oedran cymedrig yng Nghaerdydd, ac mae gan boblogaeth Rhiwbeina boblogaeth, sydd 12 mlynedd yn uwch na'r oedran cymedrig yng Nghaerdydd.

Mae gan y Cyngor y ffeithiau felly, sy'n dangos ble mae'r trigolion hynaf yng Nghaerdydd yn byw, felly, a allaf ofyn unwaith eto i chi roi ystyriaeth wirioneddol i agor canolfan gofal dydd gyda gwasanaethau dementia arbenigol yng ngogledd y ddinas, diolch?

Ateb – Y Cynghorydd Elsmore

Yr wyf bob amser yn hapus i gyfarfod ag aelodau'r ward o Ogledd Caerdydd oherwydd gwn eich bod yn rhoi sylw i'r mater hwn - ond yr ydym ninnau hefyd. Er enghraifft, yng nghynhadledd gyntaf erioed Alzheimer's Society Cymru a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas ddechrau'r mis hwn, soniodd Sue Phelps, Cyfarwyddwr Alzheimer's Society Cymru, am Gaerdydd fel dinas sy'n esiampl i ddinasoedd eraill Cymru. Talodd ganmoliaeth i Gaerdydd gan ddweud os oes un ddinas, ac fe wnaeth hi fy nghannol fel yr unigolyn sy'n gyrru'r agenda hon, a fydd yn gwneud i bethau ddigwydd, Caerdydd oedd y ddinas honno.

Fel y dywedais, mae fy nghynnig bob amser yno, mae fy nrws ar agor bob amser, dewch i'm gweld a gallwn drafod sut i fwrw ymlaen â hyn.

Cwestiwn - y Cynghorydd Carter

A allai'r Aelod Cabinet amlinellu amserlen ar gyfer adeiladu ysgolion cynradd ac uwchradd newydd yn y datblygiadau cynyddol ym Mhontpennau a Llys-faen?

Ateb - y Cynghorydd Merry

Cafodd adroddiad yn amlinellu'r cynigion ar gyfer y cyfleusterau ysgol gynradd newydd cyntaf yn Sant Edeyrn ei ystyried gan y Cabinet yr wythnos diwethaf. Bwriedir cynnal ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni ar gyfer agoriad mis Medi 2021.

Mae cytundeb Adran 106 hefyd ar waith i sicrhau ysgol gynradd newydd ar ddatblygiad Churchlands. Yn ogystal, mae mwy o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn rhan o ddyraniad ehangach y CDLI ar gyfer Safle Strategol F rhwng Llys-faen a Phontpennau.

Bydd unrhyw ysgol newydd a ddarperir fel cyfraniad gan ddatblygwr yn gwasanaethu'r angen ychwanegol a grëir gan y datblygiad. Gan fod hyn yn seiliedig ar werthu a chwblhau cartrefi newydd, a chan nad oes caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd mawr yn yr ardal, nid yw'n bosibl darparu union amserlenni ar gyfer cyflwyno'r ysgolion ar hyn o bryd.

Mae cynllunio am ysgolion yn cael ei wneud yn ofalus er mwyn osgoi ansefydlogi'r ysgolion sy'n bodoli agosaf at y safleoedd hyn.

Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Carter

Pa drafodaethau yr ydych yn eu cael gyda'r datblygwyr i geisio cynllunio ar gyfer hynny? Rwy'n deall bod y tir yno ond pa drafodaethau sydd ar y gweill gennych chi a'ch swyddogion i geisio adnabod y datblygwyr tuag at nodi'r darn o dir ar gyfer yr ysgol uwchradd a fydd yn gwasanaethu'r datblygiad newydd a rhannau o'm ward hefyd?

Ateb - y Cynghorydd Merry

Credaf fod y safle ei hun wedi'i nodi eisoes, ond o ran trafodaethau ar gyfer amserlenni, yr wyf yn eich cyfeirio'n ôl at fy sylw blaenorol, ac i raddau helaeth mae yn nwylo'r datblygwyr o ran pryd y cwblheir yr eiddo.

Cwestiwn – y Cynghorydd Dilwar Ali

A wnaiff yr Aelod Cabinet ddatganiad am y diweddariad diweddaraf ar fflatiau Lydstep sy'n cael eu hailorchuddio a materion eraill?

Ateb – Y Cynghorydd Thorne

Yr oeddwn yn falch o fod yn bresennol yn y cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gennych yn ddiweddar ac yr oedd yn wir ddrwg gennyf glywed yn uniongyrchol am y problemau o ran cyddwysiad y mae'n rhaid i lawer o'r tenantiaid ddelio ag ef.

Fel y gwyddoch, yr ydym yn ymchwilio i opsiynau i wella'r inswleiddio ar y blociau ac yr ydym ar hyn o bryd yn cael cyngor gan ymgynghorydd technegol i sicrhau ein bod yn canfod yr ateb gorau posibl.

Mae cyfarpar monitro wedi'i osod mewn nifer o fflatiau sydd wedi'u meddiannu er mwyn mesur materion fel lefelau lleithder ac effeithiolrwydd systemau awyru a gwresogi presennol. Bydd delweddu thermol o adeiledd yr adeilad hefyd yn cael ei gynnal.

Dylai canlyniadau'r gwaith hwn fod ar gael ym mis Mai a bydd y trigolion yn cael gwybodaeth lawn am unrhyw gynlluniau gwella yn y dyfodol ac ymgynghorir â hwy yn eu cylch.

Cwestiwn atodol – y Cynghorydd Dilwar Ali

A allwch gadarnhau'r amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith?

Ateb – Y Cynghorydd Thorne

Yn anffodus, ni allaf gadarnhau unrhyw amserlenni oherwydd hyd nes y gwyddom beth sydd angen i ni wneud er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny, ni fyddwn yn gwybod beth sydd angen i ni roi ar waith a pha fath o gontract sydd ei angen arnom, ond cyn gynted ag y bydd y wybodaeth honno gennym ym mis Mai ac rydm yn gwybod beth yw'r atebion i fynd i'r afael â'r problemau hynny, byddwn yn ymgynghori â thrigolion a chi.

Cwestiwn – y Cynghorydd Robson

Pa mor aml y mae Ffordd Lamby, y ganolfan ailgylchu gwastraff cartref agosaf ar gyfer gogledd Caerdydd, yn cau am fod sgiopiau yn llawn?

Ateb – y Cynghorydd Michael

Ddim yn aml iawn.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Robson

Ar yr achlysuron y mae, a oes unrhyw ffyrdd o gyfleu'r neges yn fwy eang. Yr wyf wedi cael ychydig o broblemau lle mae etholwyr wedi gwneud yr ymdrech i fynd i Ffordd Lamby, mae'n rhaid iddynt gerdded i lawr yno nawr bod Heol Wedal wedi mynd ac yn amlwg, mae'n anghyfleus iawn canfod bod y lle ar gau hyd yn oed am gyfnod gweddol fyr oherwydd bod y sgiplau yn llawn.

A oes unrhyw ffordd y gallwch wella'r cyfathrebu y mae'r Cyngor yn ei gael ar y mater hwn?

Ateb – y Cynghorydd Michael

O gofio bod y safle ar agor am 364 diwrnod y flwyddyn, ers i safle newydd Ffordd Lamby agor yn 2017, mae wedi cau deirgwaith am lai nag awr oherwydd problemau gweithredol.

- 1 tân; yr oedd yn rhaid i ni gau'r safle oherwydd hynny
- 2 aelod o'r cyhoedd yn torri lawr ar ramp yr allanfa, a
- 3 yn ystod yr wythnos ddiwethaf, o ganlyniad i'r cerbydau sy'n gwasanaethu'r sgiplau torri lawr.

Mae'n werth nodi y byddai cyn-safle Heol Wedal yn cau 50/60 gwaith y flwyddyn ar gyfartaledd felly rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod eich etholwr yn anlwcus.

Cwestiwn – y Cynghorydd Sandrey

Dywedwyd bod 2 elusen ar hyn o bryd yn ymddiddori mewn meddiannu'r adeilad gwag Pentwyn Arms/My Local ar Pentwyn Drive; fodd bynnag, nid yw pob aelod lleol wedi cael gwybod am hyn.

A all yr Aelod Cabinet perthnasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa?

Ateb – y Cynghorydd Goodway

Byddwch yn ymwybodol nad oes gan y Cyngor fuddiant perchnogaeth yn yr eiddo hwn.

Rwy'n gwybod bod y Cynghorydd Jacobsen wedi bod wrthi'n gweithio gyda nifer o sefydliadau i archwilio a ellid dod â'r adeilad yn ôl i ddefnydd buddiol.

Fodd bynnag, yn fwy diweddar, bu swyddogion yn trafod y sefyllfa gyda pherchennog yr eiddo a'r tenant ac ymddengys fod y tenant bellach yn ceisio negodi ildio ei brydles ac felly ni fyddai'n ystyried ei isosod ar hyn o bryd.

Os bydd y trafodaethau hynny'n llwyddiannus, mae'n debygol y bydd y landlord yn gwerthu'r safle i'w ailddatblygu.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion barhau i fonitro'r cynnydd a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn unol â hynny i Aelodau Lleol.



Cwestiwn – y Cynghorydd Dilwar Ali

Pa gamau y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i wella diogelwch personol cynghorwyr, yn enwedig yng ngoleuni Brexit a sylwadau diweddar a wnaed gan Brif Weinidog y Deyrnas Unedig?

Ateb – y Cynghorydd Huw Thomas

Mae'r Cyngor yn cymryd iechyd, diogelwch a lles pob cynghorydd o ddifrif. Hyd yn hyn, ni nodwyd unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â Brexit na pheryglon eraill yn lleol sydd wedi gofyn bod mesurau diogelwch personol ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith, ond nid yw hynny'n golygu na ddylem fod yn wylidwrus ac yr oeddwn yn pryderu'n bersonol o glywed yr iaith a ddefnyddiwyd gan y Prif Weinidog yn ei hanerchiad i'r genedl yr wythnos diwethaf, yn ceisio'n amlwg i rôl Aelodau Seneddol ar wahân i'w pholisi hi ac yn wir mae rhywfaint o'r iaith a welwn yn y cyfryngau a ddefnyddir gan wleidyddion a chan y cyfryngau eu hunain, yn sôn am fradwyr a bradychu, yn fy marn i, yn cyfrannu at ymdeimlad o bryder ymysg pob gwleidydd o bob plaid, yn glŷn â'r hyn y gallai rhai pobl fod yn ei wneud, felly rydym yn cymryd y pryderon hynny o ddifrif.

Cwestiwn atodol – y Cynghorydd Dilwar Ali

Mae aelodau'r Cyngor yn gwneud gwaith achos cymunedol pwysig ac yn arwain yn aml ar ymgyrchoedd a pholisïau proffil uchel.

A all yr Arweinydd warantu y gall unrhyw gynghorydd sy'n gofyn am ddyfais diogelwch personol gael un?

Ateb – y Cynghorydd Huw Thomas

Rwy'n deall bod pob cynghorydd ar hyn o bryd wedi cael cyfle i gynnal asesiad diogelwch personol gyda swyddog â chymwysterau addas, a deallaf hyd yma bod pum cynghorydd wedi gwneud hynny. Mae'r asesiadau hyn yn cynorthwyo i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon diogelwch a allai fod gan gynghorydd wrth gyflawni ei rôl a nodi unrhyw gymorth ychwanegol a all fod ei angen.

Deallaf fod Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd hefyd wedi cytuno i gynnal sesiynau briffio diogelwch personol ar gyfer pob Cynghorydd yn y dyfodol agos. Bydd y sesiynau hyn yn rhoi cyngor ac yn galluogi Cynghorwyr i ddwysáu unrhyw bryderon a allai fod ganddynt a darparu rhai rhagofalon syml y gellir eu defnyddio i leihau unrhyw risgiau posibl a allai godi. O ran eich cwestiwn penodol, deallaf nad dyna'r polisi ar hyn o bryd, y polisi yw eich bod yn mynd drwy'r broses asesu ac yr wyf yn ddigon bodlon gweithio yn rhinwedd fy swydd fel Arweinydd gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gyda'r holl Aelodau i ddeall ai'r polisi hwnnw yw'r unig ymateb priodol ar hyn o bryd.

Cwestiwn - Cynghorydd Jones-Pritchard

Yng ngoleuni'r cyhoeddiad bod ymgyrch ailgylchu yn cael ei datblygu ar y cyd i ddangos mai ailgylchu yw'r norm cymdeithasol bellach, a wnaiff yr Aelod Cabinet gytuno y gall Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref ar y Cyd a leolir i'r gogledd o Gaerdydd, neu i'r de o ardal Rhondda Cynon Taf, wasanaethu rhannau o Rondda Cynon Taf, Caerffili a Gogledd Caerdydd, yn enghraifft dda o weithio rhanbarthol, gan ddod ag arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cost ychwanegol i ddiwallu anghenion cymunedau lleol?

A wnaiff weithio gydag awdurdodau eraill i weld a ellir cyflwyno hyn neu a all egluro pam na chaiff ei gefnogi?

Ateb – y Cyngorydd Michael

Yr ydym wedi cael trafodaethau gydag awdurdodau cyfagos ynghylch buddsoddi ar y cyd. Yn ogystal, mae swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i greu darlun o'r seilwaith gwastraff ac ailgylchu sydd ei angen ar draws y rhanbarth.

Mae gan Gaerdydd cofnod brofedig o weithio gydag awdurdodau lleol eraill ac rydym bob amser yn barod i drafod prosiectau ar y cyd. Ar hyn o bryd, nid oes cyfleoedd o'r fath yn ymwneud â safleoedd ailgylchu gwastraff cartref, ond rydym yn parhau i fod yn agored i'r posibilïadau.

Cwestiwn – y Cyngorydd Boyle

Pryd bydd Ysgol Gynradd Howardian yn cael ei dalgylch ei hun?

Ateb - y Cyngorydd Merry

Rhaid i gynigion i sefydlu dalgylch ar gyfer ysgol gynradd nodi ac ystyried y goblygiadau ar gyfer trefniadau ysgolion uwchradd.

Mae'r cynigion i ehangu Ysgol Uwchradd Caerdydd, Ysgol Uwchradd Cathays ac Ysgol Uwchradd Willows – pob un ohonynt yn agos i safle Howardian – yn rhan o fand B o'r Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Bydd y cynnydd drwy ymgynghori ar bob un o'r cynigion hyn yn llywio'r broses o adolygu ffiniau dalgylchoedd ysgolion uwchradd.

Rhagwelir y bydd ymgynghori ag ysgolion, rhieni a rhanddeiliaid eraill ar newidiadau i ddalgylchoedd yn y rhan hon o'r ddinas yn cael ei wneud yn y flwyddyn ysgol 2020-21.

Cwestiwn Atodol – Y Cyngorydd Boyle

Mae hynny'n od iawn oherwydd pan ofynnais y cwestiwn hwn yn 2017, cefais wybod mewn ateb ar 10fed Hydref y byddai'r gwaith o sefydlu dalgylch ar gyfer Ysgol Gynradd Howardian yn cael ei gynnal cyn 1af Medi 2018 a'i gwblhau erbyn 1af Mawrth 2019 - tair wythnosau'n ôl, i'w weithredu ym mis Medi 2020.

Rydych bellach yn dweud wrth deuluoedd ym Mhen-y-lan y byddwch, yn hytrach na'i roi ar waith ym mis Medi 2020, yn dechrau ymgynghori am hyn yn 2020, onid yw hyn yn eithriadol o annheg?

Ateb - y Cynghorydd Merry

Rwy'n credu y byddai'n annheg i adolygu dalgylchoedd pan fyddwn yn gwybod ein bod yn mynd i adolygu maint yr ysgolion mewn lleoliadau na fyddai'n hysbys bryd hynny.

Mae'r ehangu hwn yn rhan o waith Band B Ysgolion yr 21ain ganrif a'r unig reswm dros gyflymu'r broses honno byddai pe bai'r ysgolion uwchradd eraill y byddai'r plant hynny'n eu mynychu'n llawn ar hyn o bryd heb leoedd ar gael i'r plant hynny, fel nad ydynt yn cael eu heithrio rhag mynychu naill ai Cathays neu Willows oherwydd nad ydynt o fewn y dalgylchoedd hynny.

Pe bai'n well gennych fod y dalgylch ar gyfer Howardian yn cael ei newid cyn ehangu ardal Ysgol Uwchradd Caerdydd a chael gwared ar Howardian rhag nythu o fewn dalgylch Marlborough ac Ysgol Uwchradd Caerdydd, efallai y gallem gael y sgwrs honno y tu allan i Siambr y Cyngor.

Cwestiwn – y Cynghorydd Dilwar Ali

Pa gamau y mae'r Cyngor wedi eu cymryd gyda Llywodraeth Cymru a'r DU i bob mosg yng Nghaerdydd, Cymru er diogelwch personol addolwyr a chymunedau gyda mis sanctaidd Ramadan yn dechrau ym mis Mai a gweddiâu hir yn ystod y nos, yn enwedig wrth ystyried yr ymosodiadau terfysgiaeth diweddar yn Seland Newydd a'r DU?

Ateb – Y Cynghorydd Thorne

Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r pryderon yn y gymuned Foslemaidd yn lleol sydd, yn anochel, wedi cael eu hachosi gan yr ymosodiad erchyll yn Seland Newydd. Yr wyf am dawelu meddwl trigolion ein bod yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r Heddlu a chymunedau yng Nghaerdydd, yn enwedig y gymuned Foslemaidd, i sicrhau bod y ddinas yn darparu amgylchedd diogel lle gall pobl ymweld â mosgiau y ddinas heb ofn.

Mae presenoldeb ychwanegol yr heddlu wedi bod yn weladwy iawn mewn mosgiau ledled y ddinas yn dilyn y digwyddiadau yn Seland Newydd. Mae cyngor diogelwch hefyd yn cael ei gynnig i bob addoldy gan gynghorwyr gwrthderfysgaeth yr heddlu, yn ogystal â chymorth gan y Swyddfa Gartref drwy gynllun atal troseddau penodol ar gyfer addoldai.

Mae ein timau Diogelwch Cymunedol a Prevent wedi bod yn ymgysylltu â mosgiau lleol i wrando ar bryderon cymunedau ac i ddarparu cymorth lle bynnag y bo modd. Mae swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol i fonitro lefelau tensiwn yn lleol a sicrhau bod ymyriadau cynnar yn cael eu gwneud, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, fe'm hysbyswyd na fu unrhyw newidiadau gweladwy i lefelau troseddau casineb yng Nghaerdydd, sy'n parhau'n gyson.

Yn anad dim, mae arnom eisiau rhoi tawelwch meddwl i gymunedau ac annog pobl i gael yr hyder i roi gwybod am unrhyw bryderon. Bydd hyn yn arwain at ymateb partneriaeth prydlon ac effeithiol a fydd yn sicrhau bod Caerdydd yn parhau i fod yn ddinas groesawgar a diogel i bobl o bob diwylliant a chrefydd.

Cwestiwn atodol – y Cynghorydd Dilwar Ali

Gan fod mis y Ramadan yn dod, a gaf i ofyn am rywfaint o gymorth ychwanegol i'r gymuned yng Nghaerdydd?.

Ateb – Y Cynghorydd Thorne

Os byddwch yn cysylltu â mi ac yn siarad â mi o ran manylion pellach gallaf siarad gyda'r swyddogion a gweld beth sydd ei angen.

#### 156 : MATERION BRYD

Dywedodd yr Arglwydd Faer ei fod wedi rhoi gwybod yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn y Cyngor am eitem o fusnes bryd. Gofynnodd arweinydd grŵp Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol, y Cynghorydd Boyle a secondiwyd gan Chwip Grŵp y Blaid, y Cynghorydd Joe Carter am i'r Cyngor ystyried cais am gymeradwyo absenoldeb o dan y rheol presenoldeb Cynghorydd chwe mis yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol o ran y Cynghorydd Wendy Congreve nad oedd, oherwydd salwch a thriniaeth feddygol barhaus, wedi mynychu Cyfarfod y Cyngor na Phwyllgor ers 7 Tachwedd 2018.

Gall y Cyngor ond ystyried cymeradwyo unrhyw resymau dros beidio â mynychu cyn diwedd y cyfnod perthnasol o chwe mis, a fydd yn dod i ben ar ddydd Iau 6 Mai 2019. Roedd y Cynghorydd Congreve i fod i fynychu'r cyfarfod heddiw ond yn anffodus nid oedd yn gallu ar y funud olaf.

Ardystiwyd y mater hwn gan yr Arglwydd Faer fel Mater Bryd.

#### PENDERFYNWYD

1. i dderbyn ac ystyried y cais am gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Wendy Congreve yn unol ag Adran 85 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar sail ei iechyd gwael a gwellhad parhaus; a

chymeradwywyd yr absenoldeb am gyfnod pellach o 6 mis, i ddod i ben ar 6 Tachwedd 2019.

#### 157 : PENODI LLYWODRAETHWYR YSGOLION YR AWDURDOD LLEOL

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol o'r 18fed Mawrth 2019

PENDERFYNWYD

1. y dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i'r swyddi gwag presennol:

<b>Ysgol</b>	<b>Ward</b>	<b>Dechrau'r Cyfnod Gwag</b>	<b>Cymeradwyo'r Penodiad</b>
Ysgol Gynradd Creigiau	Creigiau a Sain Ffagan	08/10/2016	David Warren
Ysgol Gynradd Marlborough	Pen-y-lan	01/09/2018	Jake Howarth-Brown
Ysgol Meadowbank	Ystum Taf	08/02/2019	Elsbeth Webb
Ysgol Gynradd Meadowlane	Trowbridge	31/01/2018	Sheila Hunt
Ysgol Gynradd Moorland	Sblot	19/11/2018 30/01/2019	Lowri Wynn Jones Sarah Scullion
Ysgol Uwchradd Gyfun Radur	Radur a Phentre-poeth	02/10/2018	Mike James
Ysgol Gynradd Gatholig Santes Bernadette	Pentwyn	30/01/2019	Patricia Arlotte
Ysgol y Court	Llanisien	05/12/2018	Jonathan Shimmin
Ysgol Gynradd Ton yr Ywen	Y Mynydd Bychan	05/02/2019	Phillip Elliot
Ysgol Gynradd Windsor Clive	Trelái	10/01/2018	Janet Palmer
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Ystum Taf	30/06/2018	Karen Phillips
Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof	Y Tyllgoed	29/11/2018	Elin Cousins
<b>Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad</b>	Butetown	10/01/2019	Alison Lynch
Ysgol Gymraeg Nant Caerau	Caerau	27/06/2018	Owain Rhys
Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth	Pentyrch	02/05/2018	Rhys James
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	Y Tyllgoed	30/01/2019	Huw Jones
Coleg Catholig Dewi Sant	Pen-y-lan	07/03/2018	Jackie Jones

2. y dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag Awdurdod Lleol yn y dyfodol

<b>Ysgol</b>	<b>Ward</b>	<b>Dechrau'r Cyfnod Gwag</b>	<b>Cymeradwyo'r Penodiad</b>
Ysgol Uwchradd Caerdydd	Cyncoed	26/05/2019	Jill Davies
Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Llandaf	Llandaf	26/06/2019	David Oliver
